

DARNAU BACH. DARLUN MAWR



Achub y Plant
Save the Children

Manteisio ar Addysg Gynnar a Gofal Plant i sicrhau nad oes unrhyw blentyn yng Nghymru yn cael ei adael ar ôl.

Mae gan bob plentyn hawl i ddyfodol. Mae Achub y Plant yn gweithio yn y DU a ledled y byd i sicrhau bod plant yn cael cychwyn iach mewn bywyd a'r cyfle i ddysgu a bod yn ddiogel. Rydym yn gwneud beth bynnag sydd ei angen i ddarparu ar gyfer plant – bob dydd ac ar adegau o argyfwng.

Diolchiadau

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Analdy Consulting, Louise Davies, Claire Telfer, Sara Drysdale a Catherine Rees ar gyfer Achub y Plant y DU.

Rydym yn ddiolchgar i David Dallimore am ei sylwadau yn ystod y gwaith ysgrifennu, ac i Uned Ddata Llywodraeth Leol – Cymru am y data.

Cyhoeddwyd gan
Achub y Plant
3ydd Llawr, Tŷ Phoenix
8 Heol y Gadeirlan,
Caerdydd
CF11 9LJ
savethechildren.org.uk

Cyhoeddwyd yn gyntaf yn 2018

© Cronfa Achub y Plant 2018

Mae Cronfa Achub y Plant yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (213890) a'r Alban (SC039570). Rhif Cwmni Cofrestredig 178159

Mae'r cyhoeddiad hwn yn destun hawlfraint, ond gellir ei atgynhyrchu trwy unrhyw ddull heb ffi na chaniatâd ymlaen llaw at ddibenion addysgu, ond nid at ddibenion ailwerthu. Ar gyfer copïo mewn unrhyw amgylchiadau eraill, mae'n rhaid cael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y cyhoeddwr, ac mae'n bosibl y bydd angen talu ffi.

Llun y clawr: Ava, tair oed, yn chwarae gyda theganau addysgol mewn meithrinfa yn Ormskirk, Swydd Gaerhirfryn
(Llun: Magda Rakita /Achub y Plant)

Teiposod gan Infographics Cyf.
Argraffwyd gan Infographics Cyf.
Cyfieithwyd gan Testun

DARNAU BACH. DARLUN MAWR



Achub y Plant
Save the Children



Cynnwys

Rhagair	vi
Crynodeb Gweithredol	vii
Cyflwyniad	xi
1 Archwilio effaith hirdymor y bwlch yn y blynyddoedd cynnar yng Nghymru	1
2 Y Blynyddoedd Cynnar a'r wyddoniaeth sy'n sylfaen i ddatblygiad plant	5
3 Addysg Gynnar a Gofal Plant:Y sefyllfa yng Nghymru	11
4 Y dyfodol a'r camau nesaf	23
Cyfeiriadau	25

Rhagair

Mae pawb eisiau i blant gael y cychwyn gorau mewn bywyd, iddynt fod yn hapus a bod ganddynt bob cyfle posibl i gychwyn eu taith addysgol yn gadarnhaol. Rydym yn gwybod y bydd blynyddoedd cynnar bywyd plentyn yn llunio ei bersonoliaeth, ei sgiliau a'i allu; ond mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno tystiolaeth newydd ynglŷn â phwysigrwydd allweddol y blynyddoedd cynnar. Mae'n dangos bod gormod o blant yng Nghymru, yn enwedig plant sy'n byw mewn tlogdi, yn colli tir yn y blynyddoedd cynnar, ac yn waeth na hynny, na fydd llawer ohonynt byth yn cau'r bwloch wedi hynny.

Nid oes angen i hyn ddigwydd.

Mae'r adroddiad hwn yn dadlau bod modd gwneud mwy i fanteisio ar rôl Addysg Gynnar a Gofal Plant wrth fynd i'r afael ag effaith tlogdi ar addysg gynnar plant. Yng Nghymru, mae llawer o ddarnau'r jig-so ar gael i sicrhau bod plant yn cael cychwyn gwych, ond mae rhai darnau ar goll neu wedi'u camosod, sy'n ei gwneud yn anodd i ni weld y darlun mawr.

Mae'n rhaid i bob un ohonom gyfrannu at y gwaith o ddatrys y broblem er mwyn darparu dyfodol gwahanol i holl blant Cymru. Mae Achub y Plant wedi ymrwymo i helpu i gasglu'r dystiolaeth i lywio'r dadleuon o blaid newid a dechrau'r sgysiau sydd eu hangen i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Cofiwch ddarllen yr adroddiad hwn, ei rannu ag eraill ac ymuno â ni. Gadewch i ni lunio eu dyfodol – gyda'n gilydd.

Louise Davies
Pennaeth Achub y Plant, Cymru



Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r achos o blaid y pethau ychwanegol y gallem eu gwneud yng Nghymru i fanteisio ar rôl Addysg Gynnar a Gofal Plant wrth fynd i'r afael ag effaith tlodi ar addysg gynnar plant (bwlch cyrhaeddiad 'y blynyddoedd cynnar'). Mae rhan gyntaf yr adroddiad yn archwilio'r cysylltiad rhwng tlodi a deilliannau dysgu cynnar plant. Dyma'r sgiliau cynnar y mae'r ymennydd yn eu defnyddio i feddwl, darllen, dysgu, cofio, rhesymu a rhoi sylw – sef y sgiliau gwybyddol. Mae ail ran yr adroddiad yn archwilio rôl bosibl addysg gynnar a gofal plant wrth helpu plant ifanc i gyflawni eu deilliannau dysgu cynnar. Rydym yn ystyried y dystiolaeth o blaid y ddatl hon; yn archwilio'r system bresennol yng Nghymru ac yn nodi meysydd lle y gellid gwneud rhagor o gynnydd. Mae'r crynodeb hwn yn amlinellu negeseuon allweddol ein hadroddiad.

Mae pob plentyn yn haeddu cychwyn teg mewn bywyd. Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos bod y blynyddoedd cynnar yn gyfnod sylfaenol hanfodol ym mywyd plentyn. Rydym yn gwybod bod plentynod cynnar yn allweddol i ddatblygiad plentyn a'i fod yn helpu i'w lunio maes o law fel oedolyn. Mae personoliaeth yn datblygu yn ystod plentynod, ac rydym yn dysgu cysylltu â phobl eraill yn ystod y cyfnod hwn. Gall ein profiadau yn ystod plentynod cynnar lywio ein bywyd cyfan. Hefyd, bydd y math o gymdeithas y byddwn ni'n byw ynnddi, a ffyniant pob un ohonom yn y dyfodol, yn dibynnu ar sut mae plant yn datblygu ac yn troi'n oedolion.

EFFAITH TLODI AR ADDYSG GYNNAR PLANT

Mae plant sy'n byw mewn tlodi yn fwy tebygol o wynebu problemau ym meysydd hanfodol eu datblygiad yn y blynyddoedd cynnar. Mae Achub y Plant yn poeni am effaith gyson ac amlwg tyfu i fyny mewn tlodi ar ddeilliannau dysgu cynnar plant. Rydym yn gwybod bod y cysylltiad hwn yn cychwyn ymhell cyn i blant ddechrau yn yr ysgol, a'i fod yn para gydol eu hamser yn yr ysgol. Mae gwaith ymchwil newydd ar gyfer Achub y Plant wedi canfod y canlynol:

- 1. Mae plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn colli tir o'i gymharu â'u cyfoedion wrth gyflawni deilliannau gwybyddol allweddol erbyn iddynt gychwyn yn yr ysgol:**
 - Erbyn iddynt droi'n bump oed, roedd tua thraean o'r plant sy'n byw mewn tlodi (30-35%) eisoes yn colli tir mewn amrywiaeth o ddeilliannau gwybyddol (h.y. geirfa, datrys problemau, dehurwydd a chydymud) o'i gymharu ag un o bob pump o'r rhai sy'n dod o deuluoedd mwy cyfoethog (20-21%).
- 2. Mae plant sy'n colli tir yn y blynyddoedd cynnar yn fwy tebygol o golli tir gydol eu haddysg. Hefyd, mae ein dadansoddiad yn dangos y canlynol:**
 - Mae bron i hanner y plant a oedd yn y grŵp isaf ar ddechrau'r ysgol gynradd yn parhau i fod ar ei hôl hi wrth droi'n 7 oed, yn 11 oed ac yn 14 oed yn ôl mesurau gwahanol o ddatblygiad gwybyddol.



Mae ein canfyddiadau yn ategu tystiolaeth sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru ynglŷn ag effaith tlodi ar ddeilliannau plant ifanc. Hefyd, fe wnaeth ein gwaith ymchwil ystyried y ffactorau a allai fod yn creu'r bwlch mewn deilliannau rhwng plant sy'n byw mewn tlodi a'u cyfoedion. Dangosodd ein gwaith ymchwil y canlynol:

- **Mae ffactorau economaidd-gymdeithasol a strwythurol yn cynyddu'r bwlch ym mhob oedran.** Yn 5 oed, dyma sy'n gyfrifol am tua hanner y bwlch rhwng plant sy'n byw mewn tlodi a'u cyfoedion.
- Roedd hanner arall y bwlch yn bump oed yn deillio o amgylchedd dysgu'r cartref, ymddygiad plant a datblygiad plant.
- **Mae gallu blaenorol yn sbarduno'r bwlch wrth i blant dyfu.** Mae'n gyfrifol am bron i draean o'r bwlch yn 7 oed a hanner y bwlch yn 14 oed.

Ar ôl dechrau colli tir, mae llawer o blant yn methu cau'r bwlch wedyn. Pan fydd hyn yn digwydd i gyfran sylweddol o blant, mae'r gymdeithas gyfan yn dioddef. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad yn nodi pwysigrwydd llwyddo yn y blynyddoedd cynnar a sut mae hyn yn gallu helpu plant i lwyddo ac aros ar y blaen; roedd y plant mwyaf

llwyddiannus o ran deilliannau ar ddechrau'r ysgol gynradd yn fwy tebygol o aros ar y blaen gydol eu haddysg.

YR ANGEN I WEITHREDU YN AWR

Mae'r angen i fynd i'r afael â 'bwlch cyrhaeddiad' y blynyddoedd cynnar yn bwysicach nawr nag erioed. Nid yw'n ymddangos bod y bwlch yn lleihau, ac mae'n bosibl ei fod yn cynyddu. Yn ôl ffigurau diweddaraf Llywodraeth Cymru, mae'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y disgyblion tlotaf a'u cyfoedion 16 oed yn ehangu. Ym maes y blynyddoedd cynnar, aeth Llywodraeth Cymru ati i osod targed i leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant sy'n byw mewn tlodi a'u cyfoedion saith oed erbyn diwedd 2017. Ychydig iawn o dystiolaeth sydd bod cynnydd digonol wedi'i wneud. Mae'r tueddiadau hyn, ynghyd â nifer y plant ifanc sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn peri pryder. Mae dros chwarter (28% neu 50,000) o blant o dan bump oed yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm.

PETHAU ERAILL Y GALLWN NI EU GWNEUD – MANTEISIO AR RÔL ADDYSG GYNNAR A GOFAL PLANT YNG NGHYMRU

Er gwaethaf amlygrwydd y cysylltiad rhwng tlodi a deilliannau dysgu cynnar yng Nghymru, **nid yw datblygiad unrhyw blentyn yn ystod y blynyddoedd cynnar hollbwysig yn cael ei benderfynu ymlaen llaw; mae pob gweithgaredd yn ystod plentyndod cynnar yn gyfle i'r plentyn ddysgu a datblygu.** Gyda'r cymorth priodol, gall pob plentyn yng Nghymru gychwyn yn yr ysgol gyda'r lefel datblygiad sydd ei angen i lwyddo.

Profwyd bod darparu Addysg Gynnar a Gofal Plant o ansawdd uchel yn un ffordd o helpu plant i gyflawni deilliannau dysgu allweddol a goresgyn effaith tlodi. Mae angen addysg a gofal o ansawdd ar blant yn ystod y cyfnod cynnar hwn er mwyn gosod sylfeini eu datblygiad a'u haddysg yn y dyfodol. Mae'n gallu cyflawni swyddogaeth allweddol wrth gefnogi plant sy'n byw mewn tlodi trwy ddarparu profiadau a gweithgareddau addysg gynnar o ansawdd uchel a thrwy gynorthwyo teuluoedd ym meysydd cyflogaeth a gofal, sydd yn ei dro yn gallu cefnogi incwm teuluoedd.

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw rhoi'r "dechrau gorau posibl i bob plentyn," ac mae cyhoeddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru ar ofal plant yn datgan y canlynol: *Mae gofal plant yn galluogi rhieni i weithio neu hyfforddi, gan gefnogi ein hymdrechion i wella twf economaidd, trechu tlodi a lleihau anghydraddoldebau. I gydnabod hyn, mae darparu gofal plant o ansawdd da sy'n hyblyg a fforddiadwy yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ar gyfer y bum mlynedd nesaf.*" (Llywodraeth Cymru, 2017c). Fodd bynnag, fel rydym yn ei nodi yn ein hadroddiad newydd, er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid darparu Addysg Gynnar a Gofal Plant o ansawdd uchel. Ar hyn o bryd yng Nghymru, nid yw pob plentyn yn gallu manteisio ar ddarpariaeth o ansawdd uchel.

- Yn ôl ein dadansoddiad newydd a gomisiynwyd, ar gyfartaledd **nid yw 44% o blant sy'n byw mewn amddifadedd incwm yng Nghymru yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg** - rhaglen addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer teuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig o Gymru. Felly, er gwaethaf eu hangen amlwg, nid yw'r rhaglen hon ar gael i bron hanner y plant sy'n byw mewn tlodi (LGDU, 2017). Mae'n bwysig nodi hefyd fod y sefyllfa yn amrywio'n helaeth ledled Cymru. Mae amcangyfrifon awdurdodau lleol yn amrywio - o 25% ym Merthyr i 60% yng Ngheredigion, lle mae bron i ddwy ran o dair o'r plant sy'n byw mewn tlodi yn methu manteisio ar y rhaglen sydd wedi'i chynllunio'n benodol i'w cynorthwyo.

Ein pryder ni yw bod y sefyllfa bresennol yn arwain at system gofal plant nad yw'n gwireddu ei photensial i helpu i atal plant sy'n byw mewn tlodi rhag colli tir yn gynnar, neu eu helpu i gau'r bwch gydol eu haddysg a gweddill eu bywydau. Mae anallu plant i fanteisio ar addysg a gofal cynnar o ansawdd yn gallu cael effaith ddifrifol ar ddatblygiad ac addysg plant. I lawer o blant yng Nghymru, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi, rydym yn poeni bod mynediad at ddarpariaeth o ansawdd uchel yn parhau i fod yn gwbl anghyson yn aml. Yn aml, nid yw gwasanaethau ar gael i bob teulu ym mhob rhan o Gymru, ac mae ansicrwydd ynglŷn ag i ba raddau y maent yn cyrraedd pob plentyn sy'n byw mewn tlodi.

Yn ogystal, mae rhai o'r gwasanaethau sy'n ceisio targedu darpariaeth o ansawdd uchel yn parhau i fethu diwallu anghenion rhieni (sy'n gweithio neu nad ydynt yn gweithio) ar adeg pan fyddant yn wynebu pwysau newydd a chynyddol oherwydd newidiadau i'r economi a'r system les. Yn olaf, ychydig iawn o gymorth sydd ar gael ar gyfer rhieni sy'n defnyddio gofal plant anffurfiol (gan aelodau'r teulu neu neiniau a theidiau) yn y blynyddoedd cynnar, neu'r rhai nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau addysg gynnar ffurfiol, i'w helpu i gefnogi addysg gynnar eu plentyn.

Mae Achub y Plant am sicrhau bod pob plentyn ifanc yng Nghymru yn gallu defnyddio a manteisio ar addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar. Mae gwireddu'r uchelgais hon yn dibynnu ar lunio polisi ar gyfer y blynyddoedd cynnar sy'n sicrhau bod addysg a gofal o ansawdd uchel ar gael i bob plentyn ifanc, gan barhau i gynorthwyo rhieni

i gael gwaith a mynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud â chyflogaeth menywod. Yn ogystal, mae angen datblygu darpariaeth Gymraeg yn sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant (Llywodraeth Cymru, 2013a). Mae'r ffactorau eraill yn cynnwys datblygiad, iechyd a llesiant plant, rôl budd-daliadau a chymorthdaliadau lles, a rôl gofal plant anffurfiol.

Mae pob un o'r elfennau hyn yn creu'r hyn sy'n cael ei ystyried gan Achub y Plant yn jig-so Addysg Gynnar a Gofal Plant. Rydym yn credu bod angen sicrhau bod pob darn yn ei le priodol er mwyn datblygu system gyflawn sy'n llwyddo i gynorthwyo plant sy'n byw mewn tlodi. Mae'r Llywodraeth Cymru bresennol, a'r rhai blaenorol, wedi dangos gweledigaeth ac ymrwymiad clir i greu system gyflawn, gan weithio'n galed i gyflwyno a cheisio cyfuno llawer o'r darnau. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys darparu sawl awr o addysg gynnar a gofal plant yn rhad ac am ddim, a chyflwyno mentrau a chymorth ar gyfer grwpiau o blant e.e. Dechrau'n Deg.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn barod i ychwanegu darnau newydd er mwyn llenwi'r bylchau a nodwyd. Fodd bynnag, fel y dengys yr adroddiad hwn, wrth gymryd cam yn ôl i edrych ar y darlun mwy, gwelir bod bylchau enfawr yn bodoli o hyd sy'n cael effaith sylweddol iawn ar ddeilliannau plant sy'n byw mewn tlodi. Mae darnau craidd o'r jig-so ar goll, ac mae eraill fel pe baent wedi'u gosod heb ystyried y darlun cyfan, gan arwain at system gyffredinol ddarniog y mae'n anodd i bawb ei deall na manteisio arni. Yn y pen draw, ein pryder ni yw bod y sefyllfa bresennol yn arwain at system gofal plant nad yw'n gwireddu ei photensial i helpu i atal plant sy'n byw mewn tlodi rhag colli tir yn gynnar neu eu helpu i gau'r bwlch gydol eu haddysg a gweddill eu bywydau. Mae ceisio llenwi'r bylchau hyn a chwblhau'r jig-so mewn ffordd sy'n cynorthwyo addysg gynnar plant yn her enfawr.

Rydym wedi nodi rhai camau uniongyrchol, sy'n cynrychioli darnau o jig-so addysg Addysg Gynnar a Gofal Plant. Mae angen sicrhau bod y darnau sylfaenol hyn yn eu lle cyn y gallwn ni ddechrau symud ymlaen at broblemau mwy cymhleth a hirdymor a datrys y broblem o sut i sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn colli tir. Gall pob un ohonom helpu i ddatrys y broblem a gwneud gwahaniaeth yn y dyfodol i holl blant Cymru.

ARGYMHELLION ACHUB Y PLANT

Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru wneud y canlynol:

1. Llenwi'r bylchau: Cyflwyno un system syml a chydlynol ar gyfer addysg a gofal cynnar o ansawdd uchel

- Darparu diweddariadau allweddol yn ymwneud â chynnydd yn erbyn ymrwymadau, a gweithredu argymhellion ar gyfer 'Un Fframwaith Ansawdd' ym maes Addysg Gynnar a Gofal Plant yng Nghymru.
- Sicrhau bod un Gweinidog yn gyfrifol am bob agwedd ar Addysg Gynnar a Gofal Plant (gan gynnwys darpariaeth Gymraeg) a sicrhau bod Addysg Gynnar a Gofal Plant yn ganolog i gau'r bwlch cyrhaeddiad.

2. Nid oes unrhyw blentyn yn colli tir: Sicrhau mynediad cyfartal at Addysg Gynnar a Gofal Plant ar gyfer holl blant Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer pob plentyn sy'n byw mewn tlodi:

- Gwarantu 15 awr yr wythnos o Addysg Gynnar a Gofal Plant yn rhad ac am ddim ar gyfer pob plentyn rhwng dwy a phedair oed sy'n byw mewn tlodi:
 - Ymestyn y cymhwysedd sylfaenol ar gyfer Addysg Gynnar a Gofal Plant o 10 awr i 15 awr yr wythnos ar gyfer plant tair a phedair oed ar aelwydydd lle nad oes neb yn gweithio
 - Cyflwyno hawl newydd i 15 awr yr wythnos o Addysg Gynnar a Gofal Plant ar gyfer pob plentyn dwy oed sy'n byw mewn tlodi

Rydym yn gofyn i bob un o'r pleidiau gwleidyddol:

- Gefnogi ein cenhadaeth i gwblhau'r 'jig-so Addysg Gynnar a Gofal Plant' a'r galwadau uchod

Rydym yn gofyn i'r holl randdeiliaid:

- **Gefnogi rhieni, gofalwyr a neiniau a theidiau i gymryd diddordeb yn addysg gynnar eu plant** yn y cartref trwy gydweithio i archwilio sut mae lleoliadau Addysg Gynnar a Gofal Plant a Chanolfannau Addysg Gymunedol Ffyniant i Bawb yn gallu cefnogi teuluoedd.

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn dadlau bod modd gwneud mwy yng Nghymru i fanteisio ar rôl Addysg Gynnar a Gofal Plant wrth fynd i'r afael ag effaith tlodi ar addysg gynnar plant (bwlch cyrhaeddiad 'y blynyddoedd cynnar'). Mae'r adroddiad yn ystyried beth rydym yn ei wybod am y cysylltiad rhwng tlodi a deilliannau dysgu yn y blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Rydym yn defnyddio ymchwil newydd i ddangos i ba raddau y mae plant o gartrefi incwm isel yn colli tir yn ifanc, gan gymharu eu perfformiad â pherfformiad eu cyfoedion. Hefyd, rydym yn ystyried effaith barhaol colli tir cyn bod plant yn cychwyn yn yr ysgol. Rydym yn defnyddio ymchwil newydd sy'n amlygu'r ffactorau sy'n cyfrannu at y bwlch hwn. Mae ail ran yr adroddiad yn canolbwyntio ar ystyried y cyfle sy'n bodoli yn ystod plentyndod cynnar i gefnogi plant a'u hatal rhag colli tir, trwy wella addysg a gofal plant cynnar. Rydym yn archwilio rôl bosibl addysg gynnar a gofal plant wrth geisio cau'r bwlch; ac i ba raddau y mae'r system yng Nghymru yn cefnogi addysg plant ifanc. Yn olaf, rydym yn nodi'r pethau ychwanegol y gellid eu gwneud i ymateb i'r her.

Mae addysg gynnar yn cynnwys amrywiaeth enfawr o gerrig milltir a deilliannau datblygiadol ar gyfer plant. Rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar sgiliau gwybyddol craidd, sef y sgiliau y mae'r ymennydd yn eu defnyddio i feddwl, darllen, cofio, rhesymu a rhoi sylw. Mae'r sgiliau hyn yn ymwneud â datblygu dysgu sy'n hanfodol i brosesu a deall gwybodaeth, fel sylw, cofio a meddwl. Mae sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu, a sgiliau cyn-

lythrennedd a chyn-rifedd yn sylfaenol i ddatblygu sgiliau eraill.

- **Sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu:** mae'r sgiliau hyn yn cynnwys amrywiaeth o sgiliau hanfodol, gan gynnwys y gallu i siarad yn rhugl, gan ddefnyddio cywair, tôn a swm i gyfleu ystyr; y gallu i ddefnyddio geiriau i ddisgrifio gwrthrychau, gweithredoedd a theimladau, a defnyddio geiriau i greu brawddegau, sgursiau a naratifau; a'r gallu i ddeall beth mae pobl eraill yn ei ddweud ac ymateb i awgrymiadau di-eiriau.
- **Sgiliau llythrennedd a chyn-lythrennedd:** mae'r sgiliau hyn yn cynnwys y gallu i ddarllen a deall geiriau, brawddegau a storïau cynyddol gymhleth; sgiliau echddygol manwl sy'n galluogi plant i ddefnyddio pen ysgrifennu, a deall natur llyfrau; a'r gallu i ysgrifennu geiriau a brawddegau cynyddol gymhleth, gan gynnwys y defnydd cywir o sillafu a gramadeg.
- **Sgiliau rhifedd a chyn-rifedd:** mae'r sgiliau hyn yn cynnwys dealltwriaeth fanwl o rifau, cyfrif, cyfrifiadau syml, siapiau, gofod a mesur; a gallu plant ifanc i ddefnyddio'r sgiliau hyn i ddisgrifio a dadansoddi'r byd o'u cwmpas.

Y BROBLEM A PHAM EIN BOD YN PRYDERU

Rydym yn gwybod bod plentyndod cynnar yn allweddol i ddatblygiad plentyn a'i fod yn helpu i'w lunio maes o law fel oedolyn. Mae personoliaeth yn datblygu yn ystod plentyndod, ac rydym yn dysgu cysylltu â phobl eraill yn ystod y cyfnod hwn. Gall ein profiadau yn ystod plentyndod cynnar lywio ein bywyd cyfan. Hefyd, bydd y math o gymdeithas y byddwn ni'n byw ynddi, a ffyniant pob un ohonom yn y dyfodol, yn dibynnu ar sut mae plant yn datblygu ac yn troi'n oedolion.

Mae tystiolaeth ryngwladol, a nodir yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, yn dangos sut mae'r blynyddoedd cynnar yn gyfnod sylfaenol ym mywyd plentyn. Ond mae gormod o blant yng Nghymru, yn enwedig y tlotaf, eisoes yn wynebu anawsterau pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Mae'r bylchau yn natblygiad plant, sy'n bodoli o gyfnod cynnar, rhwng y plant mwyaf difreintiedig a'u cyfoedion yn parhau trwy'r ysgol.

Yng Nghymru, mae bron i un o bob tri, neu 200,000, o blant yn byw mewn tlodi. Mae'r ffigur hwn wedi aros yn ddigynnewid dros y degawd diwethaf, a dyma gyfradd uchaf tlodi plant yn unrhyw wlad yn y DU. Mae dadansoddiad a wnaed ym mis Tachwedd 2017 gan Achub y Plant wedi dangos bod 49,014 (28%) o blant o dan 5 oed yng Nghymru yn cael eu hystyried i fod yn byw mewn tlodi incwm (LGDU, 2017).

Mae plant sy'n byw mewn tlodi yn fwy tebygol o gael anhawster gyda meysydd hanfodol eu datblygiad yn y blynyddoedd cynnar. Fodd bynnag, hyd yn hyn, ychydig iawn o waith dadansoddi sydd wedi'i gwblhau i edrych yn benodol ar effaith y patrymau hyn yng Nghymru.

Nod yr adroddiad hwn yw mynd i'r afael â'r bwch hwn trwy gyflwyno dadansoddiad newydd ScotCen (Hinchliffe, 2017) ar gyfer Achub y Plant. Mae ein dadansoddiad yn gofyn i ba raddau y mae tyfu i fyny mewn tlodi yng Nghymru yn effeithio ar gyrhaeddiad plant a'u cyfleoedd bywyd yn y dyfodol o'i gymharu â'u cyfoedion mwy cyfoethog. Dadansoddiwyd data Astudiaeth Carfan y Mileniwm (MCS) er mwyn olrhain effaith tlodi ar gyrhaeddiad plant yn 5, 7, 11 a 14 oed. Er bod y dadansoddiad hwn yn rhoi cipolwg ar sut mae tlodi yn effeithio ar gyrhaeddiad, mae hefyd yn cyfeirio at duedd ystyfnig a allai arwain at blant yn colli tir ac yn methu cau'r bwch gydol eu haddysg oni bai bod camau'n cael eu cymryd.

Mae astudio'r garfan hon o blant yng Nghymru wedi dangos bod gormod ohonynt ar ei hôl hi pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol gynradd. Yn ôl ein gwaith ymchwil, erbyn pump oed, mae tua thraean o'r plant sy'n byw mewn tlodi (30-35%) eisoes ar ei hôl hi, o'i gymharu ag un o bob pump o'r rhai sy'n dod o deuluoedd mwy cyfoethog (20-21%). Ar ben arall y raddfa, roedd rhwng 11% ac 17% o'r plant o aelwydydd incwm isel yn cael y sgoriau uchaf, o'i gymharu â'r rhai o aelwydydd incwm uwch.

Mae bod ar ei hôl hi yn y blynyddoedd cynnar hefyd yn golygu ei bod yn fwy tebygol y bydd y plant hyn ar ei hôl hi gydol eu haddysg. Mae'r

dadansoddiad hefyd yn dangos bod bron i hanner y plant a oedd yn y grŵp isaf ar ddechrau'r ysgol gynradd yn parhau i fod ar ei hôl hi yn 7, 11 a 14 oed ar fesurau gwahanol o ddatblygiad gwybyddol. Er bod perfformiad cyfran sylweddol o blant yn gwella ar ôl cychwyn yn wael, mae gormod ohonynt yn methu'r cau'r bwch wedi hynny.

Hefyd, mae'r dadansoddiad yn cyfeirio at bwysigrwydd cael pethau'n iawn yn y blynyddoedd cynnar a sut mae hyn yn gallu helpu plant i lwyddo ac aros ar y blaen; roedd plant a oedd ar y brig o ran deilliannau ar ddechrau'r ysgol gynradd yn fwy tebygol o aros ar y brig gydol eu haddysg.

Rydym yn poeni bod gormod o blant yng Nghymru, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi, yn methu cael mynediad at ddarpariaeth o ansawdd uchel. Yn aml, nid oes gwasanaethau ar gael i bob teulu ym mhob ardal o Gymru, ac mae amheuaeth ynglŷn ag i ba raddau y maent yn cyrraedd pob plentyn sy'n byw mewn tlodi. Yn ogystal, mae rhai o'r gwasanaethau sy'n ceisio targedu darpariaeth o ansawdd uchel yn parhau i fethu diwallu anghenion rhieni (y rhai sy'n gweithio a'r rhai nad ydynt yn gweithio) ar adeg pan fyddant yn wynebu pwysau newydd a chynyddol yn sgil newidiadau i'r economi a'r system les. Yn olaf, ychydig iawn o gymorth sydd ar gael i rieni sydd, yn y blynyddoedd cynnar, yn defnyddio gofal plant anffurfiol (gan aelodau'r teulu neu neiniau a theidiau) neu'r rhai nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau addysg gynnar ffurfiol, i'w helpu i gefnogi addysg gynnar eu plant.

Cenhadaeth Achub y Plant yw torri'r cysylltiad rhwng tlodi a deilliannau dysgu cynnar plant yng Nghymru unwaith ac am byth. Rydym wedi ymrwymo i helpu i ddatblygu'r dystiolaeth, creu'r dadleuon o blaid newid a dechrau'r sgysiau sydd eu hangen i sicrhau bod hyn yn digwydd. Er mwyn gwneud hyn mae'n **rhaid** i ni gadw llygad ar y darlun cyflawn a gwneud popeth o fewn ein gallu i ganfod darnau coll y jig-so Addysg Gynnar a Gofal Plant er mwyn sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn colli tir o ran ei ddatblygiad cyn cyrraedd yr ystafell ddosbarth hyd yn oed. Rydym eisieu sicrhau bod pob plentyn yn barod ar gyfer yr ysgol, yn ffynnu ar ôl cyrraedd ac yn cael y dyfodol mawr y mae'n ei haeddu. Yn yr adroddiad hwn, ein nod yw canolbwyntio eto ar y ffaith mai dim ond un cyfle sydd gan bob plentyn i gael y dechrau gorau mewn bywyd, a chan fod cynifer o blant yn dal ar ei hôl hi, mae'r angen am newid yn bwysicach nag erioed.

1 Archwilio effaith hirdymor y bwlch yn y blynyddoedd cynnar yng Nghymru

Roedd traean o'r plant sy'n byw mewn tlodi (30-35%) eisoes ar ei hôl hi yn 5 oed.

Mae bron i hanner y plant sydd mewn tlodi ac ar ei hôl hi yn 5 oed yn parhau i fod ar ei hôl hi yn 7, 11 a 14 oed ar draws cerrig milltir allweddol.

Roedd plant o aelwydydd incwm isel yn fwy tebygol o aros yn y grŵp isaf o ran perfformiad, ac roedd plant o aelwydydd incwm uwch yn fwy tebygol o aros ar y brig. (Hinchliffe, 2017)

YMCHWILIO I'R CYSYLLTIAD RHWNG TLODI A CHERRIG MILLTIR DYSGU CYNNAR

Mae tystiolaeth o bob rhan o'r DU a thramor yn dangos cysylltiad cryf rhwng incwm isel a deilliannau gwybyddol yn ystod plentyndod cynnar – fel sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu, rhifedd cynnar, llythrennedd cynnar a'r anian i ddysgu. (The Effective Pre-School, Primary and Secondary Education Project – EPPSE: Fernald et al, 2013). Mewn gwirionedd, mae astudiaethau wedi dangos, ar ôl ystyried ffactorau eraill, bod y cysylltiad rhwng tlodi a deilliannau gwybyddol yn gryfach nag ar gyfer canlyniadau eraill, fel canlyniadau emosiynol-gymdeithasol a chanlyniadau iechyd. (Hinchliffe, 2017)

Erbyn iddynt ddechrau yn yr ysgol, mae plant o deuluoedd incwm isel yn y DU eisoes ar ei hôl hi hyd at flwyddyn o'i gymharu â phlant o aelwydydd incwm canolig o ran sgiliau gwybyddol, tra bod y bwlch rhwng y degfed ran o blant tlotaf a mwyaf breintiedig mor eang â 19 mis. (Waldfoegel, J a Washbrook, E, 2011). Hefyd, mae datblygiad gwybyddol cynnar yn cael effaith barhaol ar gyrhaeddiad addysgol maes o law. (Galindo-Rueda, F. a Vignoles, A., 2005). Yn ogystal, mae tystiolaeth yn awgrymu bod gwahaniaethau rhwng datblygiad gwybyddol cynnar yn y DU yn tueddu

i fod yn amlycach na'r gwahaniaethau rhwng canlyniadau eraill. (Gregg, P., Propper, C. a Washbrook, E. 2008).

Heb gymorth i oresgyn anfantais gynnar, mae'r dystiolaeth yn dangos bod effaith incwm ar ddeilliannau yn parhau (ac yn cynyddu o bosibl). Mae'r berthynas rhwng incwm a datblygiad gwybyddol yn amlwg o gyfnod babandod ac ymlaen. Mae'r bwlch rhwng deilliannau'r plant tlotaf a'u cyfoedion mwy cyfoethog yn eang a di-ildio. Hefyd, mae tystiolaeth gref yn dangos bod trosglwyddo i dlodi yn y dyfodol yn seiliedig yn bennaf ar gyflawniad addysgol, sy'n berthnasol iawn pan fydd pobl yn wynebu tlodi yn ifanc (Brooks-Gunn a Duncan, 1997; Kiernan a Mensah, 2011). Mae astudiaethau yn y DU wedi dangos bod incwm rhieni plentyn yn rhagfynegydd gwell o ganlyniadau bywyd unigolyn maes o law yn y DU nag yn y rhan fwyaf o wledydd datblygedig eraill (Blanden, Gregg a Machin 2005).

Roeddem yn awyddus i ddeall y cysylltiad hwn yn well yng Nghymru. Mae data ar ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol yn dangos bod y bwlch cyrhaeddiad rhwng y disgyblion tlotaf a'u cyfoedion yn cynyddu. Fodd bynnag, mae'r data ar fylchau mewn addysg gynnar yng Nghymru yn gyfyngedig. Roeddem eisieu cryfhau'r dystiolaeth yn ymwneud â'r bwlch a'r hyn sy'n gyfrifol amdano er mwyn deall yn well sut y gallwn fynd ati i gau'r bwlch.



METHODOLEG

Rydym wedi cwblhau dadansoddiad newydd o Astudiaeth Carfan y Mileniwm ar gyfer plant yng Nghymru er mwyn dod o hyd i ddata i'n helpu i ddeall yn well y bwch sy'n bodoli ac effaith colli tir yn gynnar. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn datblygu ein hymchwil flaenorol yn Barod i Ddarllen: Cau'r bwch mewn sgiliau iaith gynnar fel bod pob plentyn yng Nghymru yn gallu darllen yn dda. Mae'r dadansoddiad newydd yn ystyried sut mae tlodi yn effeithio ar ddeilliannau dysgu plant 5 – 14 oed, a'r ffactorau sy'n gyfrifol am y bylchau mewn gallu. Mae rhagor o wybodaeth am y dadansoddiad ar gael yn yr adroddiadau technegol (sydd ar gael ar gais).

Roedd y gwaith ymchwil yn ymwneud â dadansoddiad eilaidd o ddata Astudiaeth Carfan y Mileniwm ar gyfer teuluoedd sy'n preswyllo yng Nghymru. Astudiaeth ymchwil arhydol ar raddfa fawr yw MCS, gan olrhain bywydau plant a anwyd yn 2000 gydol eu plentyndod. Mae'r dadansoddiad hwn yn defnyddio data o bob un o'r chwe ystod data sydd ar gael ar hyn o bryd, ond mae'n canolbwyntio ar ddata o ystodau 3 i 6. Cymerodd 2,127 o blant yng Nghymru ran yn yr asesiadau yn ystod 3, sy'n cael eu defnyddio fel prif fesur deilliannau o'r dadansoddiad o blant 5 oed. Dros amser, gadawodd nifer o deuluoedd yr astudiaeth, a chwblhawyd yr asesiadau gan 1,493 o blant yn ystod 6 (14 oed).

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Dyma ganfyddiadau allweddol y gwaith ymchwil:

- 1 Mae plant o deuluoedd incwm is yn colli tir o'i gymharu â'u cyfoedion yn erbyn y rhan fwyaf o fesurau ac ym mhob oedran.** Ym mhob oedran, roedd y bwch ar ei fwyaf ar gyfer asesiadau yn ymwneud â datblygu iaith. Roedd y bwch yn llai ar gyfer asesiadau sy'n llai cysylltiedig â gallu academaidd, fel yr amser sydd ei angen i gwblhau tasg.
- 2 Mae bwch mewn deilliannau gwybyddol cynnar** (h.y. geirfa, datrys problemau, dehurwydd a chydsymud) rhwng plant sy'n byw mewn tlodi a'u cyfoedion **yn amlwg yn bump oed.**
 - Roedd tua thraean o'r plant o aelwydydd incwm isel (30-35% yn y tri asesiad) yn perthyn i'r grŵp isaf o ran perfformiad, o'i gymharu ag un o bob pump o'r rhai o deuluoedd mwy cyfoethog (20-21%).
 - Roedd rhwng 11% ac 17% o blant o aelwydydd incwm isel yn y chwarterl uchaf, o'i gymharu â 27% o'r rhai o aelwydydd ag incwm uwch.
 - Roedd gwahaniaethau rhwng profion datblygiad iaith ychydig yn fwy nag ar gyfer yr asesiadau eraill a ddefnyddiwyd.

3 Mae'r bwllch yn parhau mewn cyfnodau allweddol gydol yr ysgol (7, 11 ac 14 oed).

- Yn saith oed, roedd dros ddwbl y gyfran o blant o aelwydydd incwm isel yn y chwarterl isaf, o'i gymharu â phlant o aelwydydd incwm uwch (39% a 18%).
- Perfformiodd plant o aelwydydd incwm isel yn waeth o lawer yn erbyn mesurau datblygiad iaith yn un ar ddeg oed na phlant o aelwydydd incwm uwch. Roedd bron i hanner (46%) y plant o aelwydydd incwm isel yn y chwarterl isaf, o'i gymharu â 24% o'r rhai o aelwydydd incwm uwch.
- Erbyn 14 oed, roedd plant o aelwydydd incwm isel yn fwy tebygol o aros yn y grŵp isaf o ran perfformiad, ac roedd plant o aelwydydd incwm uwch yn fwy tebygol o aros ar y brig.

4 Roedd maint y bwllch rhwng plant sy'n byw mewn tlodi a'u cyfoedion yn gyson ym mhob un o'r mesurau allweddol. Mae hyn yn awgrymu nad oes unrhyw dystiolaeth bod y bwllch yn cynyddu wrth i blant fynd yn hŷn, ond nad oes arwyddion bod y bwllch yn lleihau chwaith.

5 Mae plant sydd ar ei hŷl hi wrth ddechrau yn yr ysgol (sy'n perthyn i'r grŵp isaf o ran perfformiad mewn ystod o ddangosyddion) yr un mor debygol o barhau i fod ar ei hŷl hi na symud ymlaen.

- **Roedd bron i hanner y plant yn y grŵp isaf o ran perfformiad ar ddechrau'r ysgol gynradd yn parhau i fod yn y grŵp isaf o ran perfformiad yn 7, 11 ac 14 oed yn erbyn mesurau gwahanol o ddatblygiad gwybyddol.** Roedd plant yn y grŵp uchaf o ran perfformiad ar ddechrau'r ysgol gynradd yn fwy tebygol o aros ar y blaen.

1.2. PLANT SY'N COLLI TIR

Yn ôl y mesurau a archwiliwyd, wrth i blant fynd yn hŷn, mae perfformiad gwael yn bump oed yn parhau i fod yn rhagfynegydd cyson o berfformiad gwael ym mhob oedran.

Yn saith oed, roedd bron i hanner (46%) y plant a oedd yn y chwarterl isaf yn yr asesiad Geirfa Enwi yn bump oed hefyd yn y chwarterl isaf ar gyfer y sgôr Darllen Geiriau yn saith oed.

Mae'r un sefyllfa yn amlwg wrth edrych ar yr asesiad Sgiliau Rhif yn saith oed: roedd 45% o'r rhai a oedd yn y chwarterl isaf yn bump oed ar gyfer yr asesiad Geirfa Enwi hefyd ar y gwaelod ar gyfer yr asesiad Sgiliau Rhif. Er bod sgiliau geirfa enwi a sgiliau rhif yn gysyniadau tra gwahanol, mae hyn yn dangos nad oes unrhyw wahaniaeth o ran cyfle i symud o'r chwarterl isaf wrth edrych ar ddatblygiad iaith a datblygiad yn ymwneud â sgiliau mathemategol.

Yn un ar ddeg oed, mae cyfran debyg (48%) yn aros yn y chwarterl isaf ar gyfer yr asesiad Tebygrwydd Llafar, ac yn bedair ar ddeg oed mae cyfran debyg (42%) hefyd yn parhau yn y chwarterl isaf ar gyfer yr asesiad Gweithgaredd Gair.

Roedd plant o aelwydydd incwm isel yn fwy tebygol o aros yn y grŵp isaf o ran perfformiad, ac roedd plant o aelwydydd incwm uwch yn fwy tebygol o gadw eu safle ar y brig.

Roedd dros hanner (56%) y rhai o aelwydydd incwm isel a oedd yn y chwarterl isaf yn bump oed ar gyfer yr asesiad Geirfa Enwi yn y chwarterl isaf yn saith oed yn yr asesiad Darllen Geiriau hefyd. Mewn cymhariaeth, roedd 37% o'r rhai o gartrefi incwm uwch a oedd ar y gwaelod yn bump oed yn parhau i fod yno yn saith oed.

Roedd yr un patrwm yn amlwg ar gyfer asesiadau yn un ar ddeg oed, ac roedd 58% o blant o aelwydydd incwm isel a oedd yn y chwarterl isaf yn bump oed yn parhau yn y chwarterl isaf yn un ar ddeg oed ar gyfer yr asesiad Tebygrwydd Llafar. Roedd 41% yn y chwarterl isaf o ran perfformiad yn un ar ddeg oed ar gyfer y sgôr cyfanswm camgymeriadau Cof Gweithio Gofodol (SWM). Y ffigurau cyfatebol ar gyfer plant o aelwydydd incwm uwch a oedd ar ei hŷl hi yn bump oed oedd 40% a 25% yn y drefn honno.

O ran y plant sy'n perfformio orau, roedd y rhai o aelwydydd incwm uwch a oedd yn y chwarterl uchaf

ar ddechrau'r ysgol gynradd yn fwy tebygol na'r rhai o aelwydydd incwm isel a oedd yn y chwarterl uchaf ar ddechrau'r ysgol o fod yno o hyd adeg yr asesiadau Darllen Geiriau a Sgiliau Rhif yn saith oed, a'r asesiad Gweithgaredd Gair yn bedair ar ddeg oed. Roedd meintiau'r samplau yn un ar ddeg oed yn rhy fach i archwilio'r gwahaniaeth.

Roedd bron i hanner y plant a oedd yn y grŵp isaf o ran perfformiad ar ddechrau'r ysgol gynradd hefyd yn y chwarterl isaf yn saith oed, yn un ar ddeg oed ac yn bedair ar ddeg oed o ran mesurau gwahanol o ddatblygiad gwybyddol. Roedd plant o aelwydydd incwm isel yn fwy tebygol o aros yn y grŵp isaf o ran perfformiad, ac roedd plant o aelwydydd incwm uwch yn fwy tebygol o aros ar y brig.

1.3 PAM MAE HYN YN DIGWYDD?

Hefyd, roedd Achub y Plant yn awyddus i ddeall pa sbardunau sy'n egluro'r bwllch mewn cyflawniad addysgol rhwng plant sy'n byw mewn tlodi a'u cyfoedion yn 5, 7, 11 a 14 oed, er mwyn helpu i ganfod ffyrdd o leihau'r bwllch. Mae'r canfyddiadau allweddol wedi'u nodi isod.

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

- 1 Mae amrywiaeth o ffactorau cymhleth a chysylltiedig yn berthnasol i ddatblygiad sgiliau gwybyddol a sgiliau iaith plant.** Mae'r ffactorau allweddol yn cynnwys ffactorau economaidd-gymdeithasol neu strwythurol, cefndir teuluol, amgylchedd dysgu'r cartref, dulliau neu reolau rhianta, ymddygiad a datblygiad plant a gallu gwybyddol blaenorol.
- 2 Yn bump a saith oed, roedd nodweddion strwythurol neu economaidd-gymdeithasol** (e.e. incwm teulu, deiliadaeth ac amddifadedd lluosog) yn gyfrifol am tua hanner y bwllch mewn datblygiad iaith a gwybyddol rhwng plant o aelwydydd incwm isel ac aelwydydd incwm uwch.
- 3** Roedd hanner arall y bwllch yn bump oed i'w briodoli i amgylchedd dysgu'r cartref, ymddygiad plant a datblygiad plant.
- 4** Yn ystod pob cam, mae ffactorau economaidd-gymdeithasol / strwythurol yn cael effaith negyddol ar fywyd cynnar plentyn, ac mae'r effeithiau'n parhau i fod yn amlwg yn 14 oed.

5 Mae llwyddiant plant pan oeddent yn iau (gallu blaenorol) yn cael effaith sylweddol ar y bwllch rhwng cyrhaeddiad plant mewn sgiliau iaith a gwybyddol, ac mae'n mynd yn gryfach wrth i blant fynd yn hŷn.

Yn saith oed, mae gallu blaenorol (sgoriau asesiadau blaenorol) yn gyfrifol am ychydig yn llai nag un rhan o bump o'r bwllch. Erbyn 14 oed, roedd dros fwy na'r holl fwllch i'w briodoli i allu blaenorol.

Mae hyn yn awgrymu ei bod yn debygol o fod yn haws mynd i'r afael â'r bwllch cyrhaeddiad yn y blynyddoedd cynnar yn hytrach nag aros tan yr ysgol gynradd. Mae'r gwaith ymchwil yn nodi meysydd cyfle yn y blynyddoedd cynnar lle y gellid gwneud cynnydd trwy ddylanwadu ar ddatblygiad plant, yr hyn y maent yn ei ddysgu yn y cartref a'u gallu blaenorol.

Felly, mae'n amlwg bod modd rhagfynegi ac olrhain y ffactorau sy'n effeithio ar gollu tir yn erbyn carreg filltir allweddol mewn datblygiad iaith gydol datblygiad plentyn.

Mae'r dystiolaeth hon yn dangos yn glir bod ymyrryd yn gynnar er mwyn sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn colli tir yn hanfodol.

Yn yr adrannau canlynol rydym yn ystyried y dystiolaeth sy'n dangos bod darpariaeth Addysg Gynnar a Gofal Plant yn gallu helpu i leihau effaith negyddol y ffactorau craidd hyn a helpu i unioni'r sefyllfa yn gynnar ym mywyd plentyn er mwyn sicrhau ei fod yn gallu elwa gydol ei addysg ac wrth bontio i fyd oedolion.

2 Y Blynyddoedd Cynnar a'r wyddoniaeth sy'n sylfaen i ddatblygiad plant



Llun: Kit Oates / Adhys y Plant

Dros y 12 mlynedd diwethaf, mae tystiolaeth ryngwladol gynyddol o feysydd niwrowyddoniaeth a seicoleg datblygiad wedi cynyddu dealltwriaeth bod cylchedau ymennydd plentyn, ac felly ei ddatblygiad yn y dyfodol, yn cael ei ysgogi gan gymysgedd o enynnau, amgylcheddau a phrofiadau (Canolfan Datblygiad Plant Prifysgol Harvard, 2016). Nid yw datblygiad unrhyw blentyn wedi ei bennu ymlaen llaw, ac mae'r syniad bod genynnau wedi eu pennu ymlaen llaw wedi cael ei wrthbrofi. Mae gwyddonwyr wedi canfod bod profiadau plant yn ystod eu blynyddoedd cynnar, a'r amgylcheddau lle maent yn digwydd, nid yn unig yn llunio datblygiad elfennau sylfaenol eu hymennydd, ond hefyd yn effeithio ar sut mae genynnau'n cael eu cynnwys a'u diffodd a hyd yn oed a yw rhai'n cael eu mynegi o gwbl (Canolfan Datblygiad Plant Prifysgol Harvard, 2016).

Dros y degawd diwethaf, mae twf sylweddol mewn gwybodaeth am ddatblygiad yr ymennydd yn ystod blynyddoedd cyntaf bywyd, ynghyd â datblygiadau yn y gwyddorau cymdeithasol ac ymddygiadol, wedi darparu gwybodaeth fanylach am sut mae profiadau cynnar yn treiddio i'n cyrff, ac yn effeithio'n barhaol ar ddysgu, ymddygiad, iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Mae twf sylweddol mewn ymchwil wyddonol wedi datgelu'r newidiadau eang a chyflym sydd ar waith yn ystod plentynod cynnar, gan danlinellu mai yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn y mae cysylltiadau a phrofiadau yn cael y dylanwad mwyaf ar elfennau sylfaenol yr ymennydd sy'n datblygu.

Mae'r gwaith ymchwil yn dangos bod dros filiwn o synapsau newydd (cysylltiadau rhwng niwronau) yn ffurfio bob eiliad (National Research Council (US) et. al, 2000) yn ystod y blynyddoedd cyntaf ar ôl genedigaeth. Yn gynyddol, mae gwaith ymchwil yn cymharu datblygiad yr ymennydd ag adeiladu tŷ, gan nodi bod yn rhaid i elfennau penodol o'r ymennydd ddatblygu mewn trefn ragweladwy a bod yn rhaid i'r hyn sy'n datblygu'n

gynnar fod yn ddigon cryf i gefnogi'r strwythur hirdymor. Yn ogystal, yn yr un modd ag y gall diffyg deunyddiau hanfodol arwain at angen am newidiadau ac addasiadau i gynlluniau adeiladu, gall diffyg profiadau allweddol neu ddigwyddiadau straen allweddol arwain at addasiadau mewn pensaernïaeth niwrolegol (Canolfan Datblygiad Plant Prifysgol Harvard, 2016). Mae datblygu sgiliau gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol cryf a gweithredol ar sylfaen wan yn llawer anoddach a llai effeithiol na chael pethau'n iawn o'r dechrau (Coch et al., 2007; National Research Council (US) et. al, 2000; Nelson & Bloom, 1997; Nelson, 2000).

Rydym yn deall yn gynyddol y gall anfanteision sylweddol mewn amgylchiadau bywyd plant ifanc amharu ar eu datblygiad, gan leihau eu symudedd economaidd a chymdeithasol yn y dyfodol o bosibl, ac yn y pen draw peryglu gweithrediad, cynhyrchiant, ffyniant a chynaliadwyedd ein cymdeithasau (Canolfan Datblygiad Plant Prifysgol Harvard, 2016).

Dros y blynyddoedd diwethaf, bu mwy o ddi-ddordeb yng Nghymru mewn datblygu gwaith ymchwil yn ymwneud ag effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) ar ddatblygiad a chanlyniadau plant (Fellitti et al, 1998). Defnyddir y term Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) i ddisgrifio ystod eang o ddigwyddiadau trawmatig y gall plant ddod i gysylltiad â nhw wrth dyfu i fyny, gan gynnwys esgeulustod a cham-drin corfforol, geiriol a rhywiol ynghyd â niwed sy'n effeithio ar yr amgylchedd lle mae'r plentyn yn byw, fel trais domestig, teulu'n chwalu, a byw mewn cartref sydd wedi ei effeithio gan gam-drin sylweddau, salwch meddwl neu ymddygiad troseddol. Yn ôl astudiaeth lechyd Cyhoeddus Cymru (Bellis et al., 2015) o ACE, roedd bron i hanner (47%) oedolion Cymru wedi dioddef un ACE o leiaf. Yn ôl yr astudiaeth hon, po fwyaf o'r profiadau hyn y mae unigolion yn eu hwynebu yn ystod plentyndod, y mwyaf yw'r perygl y byddant yn wynebu ystod eang o ymddygiad sy'n niweidio iechyd a chlefydau pan fyddant yn oedolion. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae polisi plentyndod ac ymyrraeth gynnar yng Nghymru wedi mabwysiadu dull 'ymwybodol o ACE', ac mae nifer o bolisiau newydd wedi'u rhoi ar waith, gan gynnwys menter newydd Plant yn Gyntaf Llywodraeth Cymru a chyllid ar gyfer hyb ACE newydd (Llywodraeth Cymru, 2017a).

Gan edrych ar effaith ymatebion negyddol, mae gwaith ymchwil ym maes bioleg straen yn dangos sut mae caledi neu fygythiad sylweddol (e.e. oherwydd tloidi sylweddol neu gam-drin plant) yn gallu arwain at amhariadau ffisiolegol, gan effeithio

o bosibl ar ddysgu, ymddygiad a lles corfforol a meddyliol gydol oes yr unigolyn. Defnyddir y term straen 'gwenwynig' i ddisgrifio ymateb straen sy'n eithafol ac yn barhaus. Dangoswyd dro ar ôl tro bod ymatebion straen gwenwynig yn gallu effeithio ar ddatblygiad, gan gael effaith gydol oes yr unigolyn (Cyngor Gwyddonol Cenedlaethol, 2014; Canolfan Datblygiad Plant Prifysgol Harvard, 2007; Shonkoff et al., 2009). Yn fras, beth bynnag yw ffynhonnell yr adfyd, mae profi gormod ohono yn ystod plentyndod cynnar heb gael digon o gefnogaeth gan oedolyn sy'n rhoi gofal (yn y cartref a'r tu allan iddo) yn niweidiol i les plentyn. Ategir hyn gan ganfyddiadau'r gwaith ymchwil yn ymwneud ag ACEs (Bellis, 2017).

Mae dros hanner canrif o waith ymchwil a gwerthuso rhaglenni wedi dangos dro ar ôl tro bod gwasanaethau plentyndod cynnar effeithiol yn gallu bod yn ffactor lliniaru pwysig. Gall yr ymyriadau cywir ar yr adeg iawn wella canlyniadau bywyd ar gyfer plant sy'n wynebu adfyd, sicrhau manteision pwysig i gymdeithas, a sicrhau bod buddsoddiadau a'r cyllid sydd ei angen ar gyfer yr ymyriadau hyn yn werth chweil (Canolfan Datblygiad Plant Prifysgol Harvard).

Yn ôl niwrowyddoniaeth, po hwyaf y byddwn yn aros i gefnogi teuluoedd â phlant sydd mewn perygl, yr anoddaf (a mwy costus mwy na thebyg) y bydd i sicrhau canlyniadau cadarnhaol, yn enwedig i'r rhai sy'n wynebu amhariadau biolegol o straen gwenwynig yn ystod y blynyddoedd cynnar (Lupien et al., 2009). Ar adeg pan fydd llawer o'r trafodaethau a'r atebion polisi yn ymwneud â buddsoddi mewn plentyndod cynnar yn seiliedig ar drafodaethau yn ymwneud â gofal plant neu addysg gynnar ar gyfer plant 4 oed, mae tystiolaeth o'r gwyddorau biolegol yn pwysleisio'r angen brys i fynd i'r afael â bwlch sylweddol - strategaethau newydd yn y cyfnod cyn-enedigol i dair oed ar gyfer teuluoedd sy'n wynebu adfyd (Canolfan Datblygiad Plant Prifysgol Harvard, 2016).

Dylai dealltwriaeth o arwyddocâd y wybodaeth hon gael ei defnyddio i lywio dulliau arloesol o wireddu addewid y blynyddoedd cynnar, deall yr elfennau sy'n gallu amharu arno a chynllunio atebion i helpu plant a theuluoedd i oresgyn rhai o'r heriau mwyaf cymhleth y mae ein cymunedau yn eu hwynebu.

BETH SY'N SBARDUNO DATBLYGIAD PLANT?

Nid oes unrhyw ffactor penodol sy'n gwella

deilliannau plant ac yn pennu cyrhaeddiad. Yr hyn sy'n bwysig yw cyfuniad o brofiadau dros amser – amgylchedd dysgu o ansawdd da yn y cartref (gan gynnwys digon o arian i fodloni safonau byw plant), cyfnod cyn ysgol o ansawdd da, a chyfnod effeithiol yn yr ysgol gynradd. Mae plentyn sy'n cael pob un o'r profiadau hyn yn fwy tebygol o fwynhau deilliannau gwybyddol a chymdeithasol gwell na phlentyn sy'n cael dau, un neu dim un o'r profiadau hyn. (Sylva, K., Melhuish, E. C., Sammons, P., Siraj, I. and Taggart, B. 2004).

Mae amgylcheddau a phrofiadau cefnogol yn gallu cael effaith bwysig a chadarnhaol ar ddatblygiad plentyn. Wrth reswm, mae pob rhiant a gofalwr eisiau darparu'r pethau hyn ar gyfer eu plant. Ond mae'n llawer anoddach llwyddo os yw teulu yn crafu byw ar incwm isel.

EFFAITH TLODI AR DDEILLIANNAU DYSGU CYNNAR

Mae crafu byw ar incwm isel yn llywio iechyd, ymddygiad ac agweddau rhieni. Mae'n achosi straen a phryder, gan adael rhieni â theimladau o rwystredigaeth ac iselder yn aml. Gall hyn effeithio ar eu gallu i greu'r amodau i sicrhau bod plant ifanc yn gallu dysgu, er enghraifft, trwy ei gwneud yn anoddach ymddwyn yn gadarnhaol yn gyson a pharhau i gymryd diddordeb yn addysg eu plant. Er bod yr hyn y mae rhieni yn ei wneud yn cael mwy o effaith ar ddatblygiad plant ifanc na chefnidir teuluol, mae rhieni sy'n byw mewn tlodi yn fwy tebygol o'i chael yn anodd darparu o leiaf rhai agweddau ar amgylchedd dysgu o ansawdd da yn y cartref, yn enwedig os nad yw'r cymorth priodol ar gael iddynt.

Hefyd, mae tlodi yn gysylltiedig â pherygl cynyddol o afiechyd meddwl, ac mae iselder ymysg mamau yn gysylltiedig â lefel is o ddatblygiad gwybyddol ymysg plant ifanc. Hefyd, gall tlodi effeithio ar allu rhieni i reoli digwyddiadau sy'n achosi straen, darparu gofal sensitif ac ymatebol, a'i gwneud yn anoddach i deuluoedd weithredu'n effeithiol. Mae plant ifanc yn ymateb i straen yn y cartref, sy'n amharu ar eu gallu i ddysgu a datblygu.

Hefyd, mae crafu byw ar incwm isel yn cyfyngu ar allu rhieni i fuddsoddi yn y nwyddau, y gweithgareddau a'r profiadau sy'n hwyluso datblygiad plant, neu hyd yn oed darparu'r pethau hanfodol ar gyfer arferion teulu, fel amser bwyta cymdeithasol neu stori amser gwely. Mae methu darparu'r profiadau hyn, a'r euogrydd a'r pryder sy'n deillio o hynny yn aml i rieni, yn cynyddu'r effaith ar lesiant plant.

O ganlyniad, yn ystod eu blynyddoedd cynnar ffurfiannol, nid yw plant sy'n byw mewn tlodi yn manteisio ar yr amgylcheddau dysgu cyfoethog a chefnogol sydd eu hangen arnynt i ffynnu. Mae tyfu i fyny fel hyn yn cael effaith enfawr ar eu bywydau – oherwydd straen a phryder mae'n anoddach chwarae ac archwilio, treulio amser o safon gyda'u rhieni a'u brodyr a chwiorydd, cael hwyl a dysgu. Maent yn colli allan ar y sylfeini hanfodol sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol.

2.1 RÔL ADDYSG GYNNAR A GOFAL PLANT O ANSAWDD UCHEL

Mae yna dystiolaeth gadarn bod addysg a gofal o ansawdd uchel yn y blynyddoedd cynnar yn ffactor allweddol sy'n gallu gwella deilliannau plant. Mewn gwirionedd, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod addysg a gofal o'r fath yn gallu goresgyn anfanteision tlodi os yw'r ansawdd yn ddigon da. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn archwilio cyfraniad posibl addysg gynnar a gofal plant at helpu plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru i gyrraedd cerrig milltir dysgu allweddol yn y blynyddoedd cynnar. Mae'n cychwyn trwy grynhoi'r dystiolaeth yn ymwneud â chyfraniad posibl addysg gynnar a gofal plant. Dilynir hyn gan ddadansoddiad o'r system sydd ar waith ar hyn o bryd yng Nghymru.

Yn gynyddol, Addysg Gynnar a Gofal Plant (ECEC) yw'r derminoleg dderbyniol a ddefnyddir gan gyrff rhyngwladol fel yr OECD a'r Undeb Ewropeaidd. Hefyd, mae'r derminoleg wedi cael ei mabwysiadu'n ddiweddar mewn canllawiau a dogfennau polisi yng Nghymru (Graham, 2014). Caiff ei ddiffinio gan yr OECD fel: *'as all educational and care arrangements for children from birth to compulsory schooling, regardless of setting, funding, opening hours, or programme content.'* Fel y dengys y diffiniad eang hwn, mae sawl dull posibl o ddarparu Addysg Gynnar a Gofal Plant (Comisiwn Ewropeaidd, 2011).

Mae corff cynyddol o dystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol yn dangos bod darparu cyfleoedd dysgu a datblygu a gofal o ansawdd uchel i blant ifanc gyda chymorth cyhoeddus yn gallu cael dylanwad cadarnhaol a chryf ar ddatblygiad cynnar plant, ond hefyd lleddfu ac atal tlodi plant yn ogystal â lleddfu ei effeithiau (OECD, 2006). Dangoswyd bod addysg gynnar a gofal plant yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ddeilliannau gwybyddol cynnar. Mae ansawdd darpariaeth cyn ysgol yn bwysig. Hefyd, mae dystiolaeth o astudiaeth Darpariaeth Effeithiol o Addysg Cyn Ysgol (EPPE) ar lefel y DU wedi dangos bod

mynychu lleoliad addysg gynnar rhan amser o ansawdd uchel dros nifer o flynyddoedd yn gallu cael effaith gadarnhaol barhaus ar ddysgu a datblygiad plant (Sylva et al., 2004). Mae canfyddiadau o'r EPPE wedi dangos y canlynol:

- Mae plentyn sy'n mynychu lleoliad o ansawdd uchel am un i ddwy flynedd yn dechrau'r ysgol 1.6 mis o flaen ei gyd-ddisgyblion sy'n mynychu lleoliad o ansawdd isel, a 4.8 mis o flaen plentyn na fynychodd unrhyw ddarpariaeth.
- Mae plentyn sy'n mynychu lleoliad o ansawdd uchel am ddwy i dair blynedd yn dechrau'r ysgol 3.2 mis o flaen ei gyd-ddisgyblion sy'n mynychu sesiwn o ansawdd isel, a 7.8 mis o flaen plentyn na fynychodd unrhyw ddarpariaeth.

Hefyd, mae canfyddiadau EPPE yn dangos bod mynychu darpariaeth o ansawdd uchel yn y blynyddoedd cynnar yn cael effaith barhaus gydol yr ysgol gynradd ac uwchradd ac yn nes ymlaen mewn bywyd:

- Mae mynychu gofal plant rhwng dwy a thair oed yn gysylltiedig â deilliannau gwell o ran datblygiad gwybyddol ac emosiynol-gymdeithasol, a manteision ychwanegol ar gyfer plant difreintiedig (Melhuish et al., 2015).
- Nodwyd bod manteision gofal plant yn annibynnol ar fanteision amgylchedd dysgu yn y cartref ac effaith anfantais a ffactorau eraill (Melhuish et al., 2015).
- Mae mynychu gofal plant o unrhyw fath yn arwain at gynnydd o 88.4% yn y tebygolrwydd o gael pump TGAU A*-C neu fwy, gyda'r effaith yn fwy ar gyfer plant difreintiedig.
- Mae mynychu lleoliad o ansawdd uchel o'i gymharu â lleoliad o ansawdd isel yn cynyddu'r tebygolrwydd o ennill pump TGAU A*-C neu fwy ychydig o dan 20%.

Hefyd, mae gwaith ymchwil diweddar wedi canolbwyntio ar yr effeithiau cymdeithasol hirdymor, gan ganfod y canlynol:

- 1 Mae plentyn sy'n mynychu gofal plant o unrhyw fath yn ennill £27,000 yn ychwanegol yn ystod ei fywyd, ac mae plentyn sy'n mynychu lleoliad o ansawdd uchel yn ennill £19,000 yn ychwanegol yn ystod ei fywyd;
- 2 Mae hyn yn cynrychioli elw i'r trysorlys o tua £11,000 ar gyfer mynychu gofal plant o unrhyw fath ac elw o £5,000 ar gyfer plentyn sy'n mynychu lleoliad o ansawdd uchel (Cattan et al., 2014).




Llun: Kiri Oates / Archib y Plant

PWYSIGRWYDD ADDYSG GYNNAR A GOFAL PLANT ER MWYN HYRWYDDO CYFLOGAETH MAMAU

Yn ogystal â'r effaith uniongyrchol y gall addysg gynnar a gofal plant o ansawdd uchel ei gael ar ddatblygiad plant, mae'r dystiolaeth yn dangos bod addysg a gofal o'r fath yn gallu cael effaith anuniongyrchol trwy gynorthwyo rhieni, a mamau yn benodol, i weithio. Er bod rhai mamau yn dewis cymryd seibiant o'u bywyd gwaith tra bod eu plant yn ifanc, mae'r dystiolaeth gyfunol yn dangos bod ffactorau allanol yn dylanwadu ar eu penderfyniadau hefyd, gan gynnwys y farchnad lafur, cymwysterau a gofal plant. Mae tueddiadau mewn data yn dangos bod bwloch sylweddol yn aml mewn cyflogaeth ymysg mamau'r plant ifancaf, sy'n amlwg iawn ymysg unig rieni, y rhai sydd â chymwysterau isel ac incwm aelwyd isel, o'i gymharu â gwledydd eraill. Gallai mynd i'r afael â hyn a galluogi mwy o famau i weithio gael effaith sylweddol ar nifer y plant mewn tloidi.


Er bod cyfraddau cyflogaeth menywod yn gymharol uchel, mae gan y DU gyfraddau cyflogaeth mamau cymharol isel, ac mae menywod â phlant ifanc yn llai tebygol o weithio na menywod nad oes ganddynt blant. Yn ogystal, mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer Cymru (Gorff-Medi 2017), yn dangos un o'r cyfraddau cyflogaeth isaf ymysg menywod ym Mhrydain (52.1%), ac mae nifer y menywod mewn cyflogaeth wedi gostwng 2.2% dros y flwyddyn ddiwethaf (ONS, 2017). Mae data cyflogaeth OECD o 2014 yn dangos bod cyfraddau cyflogaeth mamau yn y DU, gan gynnwys mamau â'r plant dibynnol ieuengaf, yn sylweddol is na'r gwledydd mwyaf llwyddiannus yn y cyswllt hwn, sef Denmarc a'r Iseldiroedd, ac roedd y DU yn rhif 17 yn y rhestr o wledydd yr OECD yn 2014. Mae cyfraddau cyflogaeth ar gyfer mamau plant 3-5 oed yn sylweddol is yn rhyngwladol, gyda'r DU yn 13 safle o'r gwaelod ac yn is na chyfartaleddau OECD.

Ffigur 1: Cyfraddau cyflogaeth mamau yn ôl oed y plentyn ifancaf mewn gwledydd OECD, 2014



Ffynhonnell: Cronfa Ddata Teuluoedd OECD 2014

Ffigur 2: Cyfraddau cyflogaeth unig famau ag o leiaf un plentyn 0-14 oed mewn gwledydd OECD, 2014



Ffynhonnell: Cronfa Ddata Teuluoedd OECD 2014

Hefyd, mae cyfraddau cyflogaeth unig famau yn isel iawn yn y DU, (Ffigur 2) sef wyth o'r gwaelod yn y rhestr o'r gwledydd OECD yn 2014, ac yn is na chyfartaledd OECD. Mae'r cyfraddau ar gyfer mamau â phartneriaid yn uwch (ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yn 2014), ond maent yn parhau i fod yn gymharol isel o'u cymharu â llawer o wledydd.

Fel y gwelwch, er bod cyfranogiad economaidd menywod wedi cynyddu yn y rhan fwyaf o wledydd, mamau plant ifanc yw'r grŵp lleiaf tebygol o weithio. Yn 2014, dywedodd 2 o bob 5 o fenywod mai "gofalu am y teulu/cartref" oedd y rheswm nad oeddent yn cyfranogi yn y farchnad lafur (ONS, 2015).

Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos bod polisiau teulu sy'n darparu cymhorthdal ar gyfer gofal plant ac yn cynyddu ei argaeledd yn cael effaith wahanol ar gyflenwad llafur menywod mewn gwledydd gwahanol (Vuri, 2016). Fodd bynnag, mae'r gwaith ymchwil hwn yn dangos y bydd effeithiolrwydd yn dibynnu ar ddealltwriaeth holistaidd o lefelau cyflogaeth ac enillion menywod mewn gwledydd penodol, ac argaeledd, costau ac ansawdd gofal plant, cyn y diwygiadau. Yn ddiweddar, mae Achub y Plant wedi comisiynu gwaith ymchwil gan NatCen (2017) a nododd fod bwlch mewn tystiolaeth ymchwil o ran pennu gallu marchnadoedd gofal plant presennol i ddarparu ar gyfer gofynion posibl gofal plant yn y dyfodol pan fydd cynigion newydd yn cael eu cyflwyno. Dangosodd ein hadroddiad fod diffyg dadansoddiad ar lefel genedlaethol yn cyfyngu ar ein gallu i gymharu'r defnydd o ddarpariaeth gofal plant a phatrymau'r defnydd o ofal plant ym mhedair gwlad y DU. Ni chwblhawyd dadansoddiad manwl o ffigurau diweddaraf yr Arolwg o'r Llafurlu sy'n edrych ar batrymau cyfraddau cyflogaeth mamau a'r ffactorau sy'n effeithio arnynt yng Nghymru.

O ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig, gan gynnwys y cynnig o 30 awr sy'n cael ei dreialu mewn rhai ardaloedd o Gymru, mae Achub y Plant yn credu bod darlun cliriach yn hanfodol. Er bod rhywfaint o waith modelu'r dewisiadau gwahanol ar gyfer cynnig estynedig o 20 awr o ofal plant am ddim ar gyfer plant 3-4 oed wedi'i gwblhau yng Nghymru cyn cyflwyno cynlluniau peilot o'r cynnig newydd o 30 awr (Paull & Xu, 2015), credwn y byddai dadansoddiad manwl, cyfoes o nodweddion cyfranogiad benywaidd a mamau sy'n ystyried materion fel incwm, cymwysterau a nodweddion y farchnad lafur yn ddefnyddiol. Dylai hyn lywio penderfyniadau terfynol ynglŷn â chymhwysedd ar gyfer y cynnig 30 awr, sydd ond yn fanteisiol i rieni sy'n gweithio ar hyn o bryd. Hefyd, dylid cwblhau dadansoddiad tebyg o effaith y cynllun peilot 30 awr ar dlodi plant ac ar gau'r bwlch cyrhaeddiad. Bydd Achub y Plant yn archwilio'r dewisiadau ar gyfer cwblhau'r dadansoddiad hwn er mwyn llywio'r drafodaeth yng Nghymru. Fel y mae'r gwaith ymchwil yn ei bwysleisio, dim ond os yw ymyriadau polisi gofal plant yn seiliedig ar ddealltwriaeth fanwl o anghenion gwledydd penodol y byddant yn cael effaith arwyddocaol ar gyflogaeth mamau (Vuri, 2016).

Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adran hon wedi dangos bod gwasanaethau addysg a gofal plant fforddiadwy a hygyrch yn y blynyddoedd cynnar yn gwneud cyfraniad pwysig at gefnogi datblygiad plant a bod gan y gwasanaethau hyn botensial sylweddol i leddfu neu helpu i oresgyn profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Rydym wedi archwilio rhai o'r ffactorau sy'n parhau i lywio penderfyniadau rhieni yn ymwneud â gwaith, a'r mathau o ddarpariaeth y maent yn eu dewis.

Hefyd, gwelsom fod addysg gynnar a gofal plant yn cael yr effaith fwyaf pan fydd y ddarpariaeth o ansawdd uchel ac yn dechrau mor gynnar â phosibl (Eisenhardt, 2014).

Wrth ddiffinio ansawdd da mewn lleoliadau cyn ysgol, nododd EPPE (Sylva et al., 2004) mai'r lleoliadau sy'n llwyddo orau i gefnogi datblygiad plant yw'r lleoliadau integredig sy'n cyflogi staff â chymwysterau uwch, yn cyflwyno cwricwlwm cytbwys ac sydd â chymysgedd cymdeithasol o blant.

Hefyd, nododd yr astudiaeth fod ansawdd amgylchedd dysgu'r cartref yn bwysicach ar gyfer datblygiad plentyn na chefnidir ei rieni. Crynhowyd hyn gan y sylw hwn: 'mae'r hyn y mae rhieni yn ei wneud yn bwysicach na phwy yw rhieni'.

Gallai gweithio gyda rhieni, cymunedau ac ysgolion i sicrhau mynediad cyffredinol at yr ymyriadau a'r gwasanaethau priodol fynd i'r afael ag anfantais yn gynnar a sicrhau bod pob plentyn yn ffynnu. Hefyd, mae addysg gynnar a gofal plant yn gallu darparu cymorth hanfodol i deuluoedd, gan helpu i ddiogelu a hyd yn oed cynyddu incwm yr aelwyd trwy helpu menywod i gael gwaith. Mae'n rhaid i ddarpariaeth addysg gynnar a gofal plant ystyried cyd-destunau penodol, ac mae'n rhaid sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael, ei bod yn fforddiadwy, ac yn bwysicaf oll, ei bod o ansawdd uchel.

3 Addysg Gynnar a Gofal Plant: Y sefyllfa yng Nghymru



Ar sail y dystiolaeth ryngwladol, mae Cymru wedi cael cychwyn cadarnhaol. Mae'r adran hon yn archwilio i ba raddau y mae Addysg Gynnar a Gofal Plant yng Nghymru yn helpu plant i gyflawni deilliannau dysgu yn y blynyddoedd cynnar. Mae'n ystyried y system yn ei chyfanrwydd a rhai elfennau penodol o'r system, gan nodi bylchau mewn darpariaeth.

Yn ôl polisi blynyddoedd cynnar a gofal plant deng mlynedd Llywodraeth Cymru, Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair, uchelgais Llywodraeth Cymru yw 'anelu at roi'r dechrau gorau posibl i bob plentyn' (Llywodraeth Cymru, 2013a). Adleisir hyn yn y ddogfen Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol, sy'n datgan: "byddwn yn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bawb drwy gefnogi pobl o'u geni, a thrwy gydol eu haddysg a thu hwnt er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gyflawni eu potensial naturiol." (Llywodraeth Cymru, 2017b). Mae'r datganiadau

hyn yn adlewyrchu ymrwymiad cyson ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol ym 1999 i roi blaenoriaeth i hawliau plant ac anghenion teuluoedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir yr hyn y mae'n ei weld fel y darlun cyflawn ar gyfer addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar: "gwella ansawdd gan gynnwys arweinyddiaeth, y gweithlu, yr amgylchedd a phrofiad y plentyn. Helpu plant i drosglwyddo o'r cartrefi i'r ysgol. Gwella hyblygrwydd a hygyrchedd gofal plant ac addysg gynnar a, lle y bo'n bosibl, fforddiadwyedd gofal plant drwy gydweithio â'r farchnad gofal plant a'i datblygu er mwyn sicrhau bod mwy o rieni, sydd am wneud hynny, yn gallu cyrchu gofal plant i'w helpu i weithio a hyfforddi", gweledigaeth sy'n un o bum blaenoriaeth graidd Cynllun y Blynyddoedd Cynnar 10 Mlynedd Llywodraeth Cymru - Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair 2013-2023 (Llywodraeth, 2013). Gyda'r nod o ddatblygu ei 'darlun cyflawn', mae Llywodraeth Cymru wedi nodi darnau allweddol o'r jig-so ac wedi gweithio i'w rhoi ar waith dros y pum mlynedd diwethaf.

Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'n gyson i hyrwyddo ac ymestyn ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ryngwladol yn ymwneud â'r hyn sy'n gwneud y gwahaniaeth fwyaf i blant a theuluoedd yn y blynyddoedd cynnar. Mae cyflwyno ac ymestyn Dechrau'n Deg, a chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, yn enghreifftiau allweddol o hyn. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi prosiectau peilot arloesol newydd Rhoi Plant yn Gyntaf a'r weledigaeth o ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus sy'n ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac yn defnyddio dull mwy ataliol o fynd i'r afael ag effeithiau profiadau o'r fath (Bellis, et al, 2015). Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Diben y deddfau a'r polisiau arloesol hyn yng Nghymru yw sicrhau bod anghenion teuluoedd a phlant yn parhau i fod yn uchel ar yr agenda wrth wneud penderfyniadau ar bob lefel.

Mae pwysigrwydd gofal plant a'r blynyddoedd cynnar wrth fynd i'r afael â'r agenda tlodi wedi cael ei ddatgan yn gyson gan Lywodraeth Cymru. Yn ddiweddar, mae wedi datgan: *“gan gydnabod bod gofal plant yn galluogi rhieni i weithio, yn cefnogi twf economaidd, ac yn helpu i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gofal plant hyblyg, fforddiadwy ac o ansawdd uchel yn flaenoriaeth dros y pum mlynedd nesaf.”* (Llywodraeth Cymru, 2017c). Pwysleisiodd Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair (2013) y cysylltiadau rhwng polisi'r blynyddoedd cynnar ac agenda trechu tlodi Llywodraeth Cymru, gan gydnabod bod y rhan fwyaf o'r bwlch rhwng cyrhaeddiad plentyn o deulu breintiedig a phlentyn o deulu difreintiedig yn cael ei bennu'n gynnar yn ystod plentyndod ac yn deillio'n bennaf o gefndir teuluol ac amgylchedd y cartref. Mae ein dadansoddiad yn yr adroddiad hwn yn ategu hyn hefyd. Ym mis Mawrth 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig (Llywodraeth Cymru, 2015a) a nododd fod argaeledd gofal plant fforddiadwy a hygyrch yn hanfodol i'r agenda trechu tlodi, a bod y ddarpariaeth hon yn un o bum blaenoriaeth y Llywodraeth ar gyfer y strategaeth.

Fodd bynnag, ymddengys fod y flaenoriaeth hon fel petai wedi gwanhau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae gofal plant ond yn cael ei grybwyll yn fras wrth gyfeirio at fframwaith arolygu newydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol diweddaraf Llywodraeth Cymru

(Llywodraeth Cymru, 2016a). Ymddengys fod Strategaeth Ffyniant i Bawb Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru 2017b) a gyhoeddwyd yn ddiweddar wedi cyfyngu'r pwyslais i'r cynnig 30 awr newydd a sefydlu Canolfannau Dysgu Cymunedol i ddarparu gwasanaethau estynedig gyda gofal plant, cymorth rhianta, dysgu teuluoedd a mynediad cymunedol at gyfleusterau sy'n seiliedig ar y diwrnod ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ymrwymiad i gamu yn ôl pan fo angen, gan ailystyried y darlun cyflawn a datblygu ei dealltwriaeth o'r gwelliannau sydd eu hangen. Yn 2014, comisiynwyd Adolygiad Annibynnol o Strwythurau Gofal Plant (Graham, 2014), a gyflwynodd argymhellion manwl yn ymwneud â'r newidiadau systemig sydd eu hangen i wireddu uchelgais y Llywodraeth ym maes gofal plant a'r blynyddoedd cynnar. Nododd Adolygiad Graham fod dull digyswllt a graddol o gyflwyno diwygiadau angenrheidiol yn arwain at y perygl o greu system fwy cymhleth, tameidiog a lletchwith a oedd yn ddryslyd i rieni a ddarparwyr fel ei gilydd (Graham, 2014). Mae'r dadansoddiad newydd a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, ynghyd ag ystyriaeth o'r sefyllfa bresennol yng Nghymru, yn tanlinellu nad yw pob un o argymhellion craidd yr adolygiad wedi'u rhoi ar waith eto.

Mae Achub y Plant yn credu bod angen diwygio'r system bresennol yng Nghymru ar frys trwy wella'r ddarpariaeth bresennol er mwyn sicrhau bod y system yn cyd-fynd â'r hyn sy'n llwyddo i gynorthwyo plant mewn tlodi i ffynnu, yn ôl tystiolaeth ryngwladol. Dim ond trwy ganolbwyntio ar y darlun cyflawn a pharhau i ganolbwyntio ar lenwi'r bylchau amlwg y bydd Llywodraeth Cymru yn llwyddo i fanteisio ar botensial Addysg Gynnar a Gofal Plant o ansawdd uchel i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Rydym yn credu bod dau ddarn sylfaenol o'r hyn a welwn fel y 'jig-so addysg gynnar a gofal plant' ar goll. Mae angen mynd i'r afael â'r rhain ar frys er mwyn datblygu sylfaen gadarn a sicrhau bod addysg gynnar a gofal plant yng Nghymru yn cael yr effaith fwyaf ar blant sy'n byw mewn tlodi.

Yn gyntaf, byddwn yn edrych ar yr hyn sydd angen ei wneud i gael un system gydllynus ar gyfer ddarparu addysg o ansawdd uchel yn y blynyddoedd cynnar a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar blant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru.

Yn ail, byddwn yn edrych ar y camau sydd angen eu rhoi ar waith i sicrhau nad mater o hap a damwain yw mynediad unrhyw blentyn at Addysg Gynnar a Gofal Plant. Rydym yn edrych ar y

gwelliannau sydd eu hangen i sicrhau darpariaeth deg er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn yng Nghymru fynediad cyfartal at ddarpariaeth o ansawdd. Hefyd, rydym yn archwilio sut i sicrhau bod modd canolbwyntio'n benodol ar ddarparu cymorth i blant sy'n byw mewn tlodi, ym mha ffordd bynnag maent yn derbyn eu gofal; naill ai trwy ddulliau ffurfiol neu anffurfiol.

3.1 DARNAU COLL: TUAG AT DDULL CYDLYNUS WEDI EI SYMLEIDDIO O DDARPARU ADDYSG GYNNAR A GOFAL PLANT O ANSAWDD UCHEL

"Mae gofal plant ar gael yn fy ardal i ond mae gofal plant o ansawdd da yn anodd cael gafael arno. Nid wyf am i'm mhlentyn fynd i rywle dim ond oherwydd fy mod yn gweithio - rwyf eisiau iddo gael profiad dysgu cadarnhaol yno a derbyn gofal da, sy'n golygu na fydd yn rhad." (Achub y Plant ac Ymddiriedolaeth y Teulu a Gofal Plant 2011)

Yn 2014, un o argymhellion craidd yr adolygiad annibynnol o strwythurau gofal plant (Graham, 2014) oedd yr angen am newid systematig er mwyn sicrhau bod anghenion rhieni i weithio yn cyd-fynd ag anghenion gofal ac addysg plant, sy'n gallu gwrthdaro ar adegau. Fel y mae

sylwadau diweddar wedi'i nodi, mae gofal plant ac addysg yng Nghymru wedi cael eu trin ar wahân mewn polisi ac ymarfer yn y gorffennol (Dallimore, 2016; Dallimore a Graham, 2017). Mae rhai dadansoddiadau wedi nodi bod addysg yn y blynyddoedd cynnar, yn yr ysgol gynradd er enghraifft, yn cael ei hystyried yn gynyddol fel hawl, yn wasanaeth cyhoeddus – tra bod gofal plant yn cael ei ystyried yn rhywbeth ar wahân yn aml, fel nwydd i rieni ei brynu yn amodol ar dalu ffioedd (uchel iawn ar adegau). (Dallimore, 2016). Yn draddodiadol yng Nghymru, mae gwahanu darpariaeth yn y modd hwn wedi arwain at systemau cyllid, rheoleiddio, arolygu a chanllawiau gwahanol, ynghyd â hawliau, tâl ac amodau gwahanol i'r gweithlu.

Gan egluro'r pwynt hwn, mae Dallimore (2016) yn nodi nad oes angen cyfreithiol i blentyn yng Nghymru ddechrau yn yr ysgol tan y tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn bump oed, er bod y rhan fwyaf o blant yn dechrau yn yr ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae gwasanaethau addysg gynnar a gofal plant yng Nghymru yn cynnwys ysgolion sy'n darparu addysg i blant nad ydynt o oedran ysgol gorfodol mewn dosbarthiadau meithrin, lleoliadau gofal plant fel meithrinfeydd dydd, gwarchodwyr plant cofrestredig, grwpiau chwarae cyn ysgol a chylchoedd meithrin. Caiff y rhain eu disgrifio fel arfer fel gwasanaethau addysg a gofal blynyddoedd cynnar 'ffurfiol' o'i gymharu â gofal sy'n cael ei ddarparu gan neiniau a theidiau,



Llun: Kfr Oates / Achub y Plant



Llun: Kfir Oren / Achub y Plant

perthnasau eraill neu ffrindiau yn hytrach na rhieni, a elwir fel arfer yn ofal 'anffurfiol'. Gan adlewyrchu'r rhaniad yng ngweddill y system, mae Dallimore (2016) wedi pwysleisio, ar y cyfan, nad yw gwasanaethau addysg gynnar a gofal wedi eu hintegreiddio'n dda yng Nghymru.

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn ariannu addysg ran-amser ar gyfer plant tair oed mewn ysgolion (lleoliadau 'a gynhelir') ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnig addysg gynnar mewn lleoliadau eraill ('nas cynhelir'). Mae Dallimore (2016) wedi dadansoddi data poblogaeth a chofrestri ysgol i ddangos bod 88% o'r holl blant tair oed yng Nghymru wedi ymrestru mewn dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion a gynhelir, o'i gymharu â 36% yn Lloegr. Hefyd, mae'n pwysleisio bod hyn yn wir er gwaetha'r ffaith fod 96% o blant tair oed yn derbyn rhywfaint o addysg yn y blynyddoedd cynnar. Felly, er bod y rhan fwyaf o blant tair oed, pedair oed a nifer gynyddol o blant dwy oed yn Lloegr mewn lleoliadau 'gofal plant', mae'r rhan fwyaf o blant tair a phedair oed yng Nghymru yn derbyn addysg gynnar a gofal plant mewn dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion a gynhelir. Y ddadl yw y gall hyn gyfyngu ar gymhelliant ysgolion i integreiddio â lleoliadau ehangach yng Nghymru gan effeithio ar gryfder y sector gofal plant preifat mewn sawl rhan o Gymru.

Fel ateb i'r systemau gofal ac addysg cynyddol anghyfartal yng Nghymru y soniwyd amdanynt ynghynt, roedd adolygiad Graham (2014) yn

argymhell bod angen trawsnewid y system bresennol er mwyn lleddfu'r tensiynau. Pwysleisiodd Graham (2014) fod angen symleiddio'r cynnig er mwyn canolbwyntio eto ar anghenion y plentyn, gan ddatgan y byddai cynnig tameidiog i gael rhieni yn ôl i'r gwaith yn cael effaith niweidiol ar blant yn y pen draw (Dallimore a Graham, 2017). Mae Graham (2014) yn pwysleisio nad yw gwledydd eraill yn gwahaniaethu yn yr un modd rhwng gofal plant ac addysg gynnar, ac mae'n dyfynnu tystiolaeth bod integreiddio addysg a gofal yn arwain at lefelau sylweddol is o dlodi plant ac anghydraddoldeb (Penn et al., 2004). Lle mae systemau rhanedig yn bodoli, fel yn y DU, mae'n datgan eu bod yn 'bodoli ochr yn ochr' â lefelau cymharol uchel o anghydraddoldeb, lefelau is o gyflogaeth mamau (Naumann et al., 2013) (Naumann et al., 2013) a thlodi plant (Kaya et al., 2010). Ategir y pwynt hwn gan dystiolaeth ryngwladol gadarn bod plant a theuluoedd yn elwa fwyaf mewn gwledydd lle mae elfennau gofal ac addysg plentyndod cynnar yn unedig (Graham, 2014).

Ar ddiwedd yr Adolygiad (Graham, 2014), cafwyd argymhelliad cryf bod datblygu 'Un Fframwaith Ansawdd' yn sylfaen hanfodol ar gyfer datblygu strwythurau effeithiol ac effeithlon er mwyn cael effaith barhaus ar wella deilliannau ar gyfer plant. Y meysydd craidd a amlygwyd gan yr Adolygiad oedd angen i wella **arolygu a rheoleiddio, digonolrwydd gofal plant, y gweithlu, y Gymraeg a chysondeb asesu yn**

y blynyddoedd cynnar. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Llywodraeth wedi rhoi camau amrywiol ar waith, gan weithredu i gefnogi awdurdodau lleol i roi'r ddyletswydd digonolrwydd gofal plant ar waith, gan ddiwygio a diweddarau canllawiau statudol ac adnoddau. Fodd bynnag, nid yw'r argymhellion wedi'u rhoi ar waith mewn nifer o feysydd eto. Er mwyn sicrhau bod polisi addysg gynnar a gofal plant yn effeithiol, mae Graham (2014) hefyd yn argymhell y dylai un Gweinidog fod yn gyfrifol am y maes, ac y dylai cyfrifoldeb ar lefel leol gael ei uno o dan fyrdau addysg gynnar a gofal plant lleol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn lleol ac yn ystyried pa mor gyson yw mynediad at wasanaethau ledled Cymru, ac ansawdd y gwasanaethau hynny. Mae Achub y Plant yn credu y byddai'r newid hwn hefyd yn hwyluso'r broses o ddatblygu a rhannu arbenigedd ac arferion da er mwyn gweithio tuag at y modelau cyflenwi mwyaf cost effeithiol. Mae'n ymddangos bod y cyd-destun polisi presennol yng Nghymru yn rhoi cyfle unigryw i archwilio a datblygu'r argymhelliad hwn. Mae datblygu Byrdau Gwasanaethau Cyhoeddus newydd a'r cynlluniau llesiant sy'n gysylltiedig â nhw, asesu anghenion poblogaethau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gofynion newydd ar gyfer asesu digonolrwydd gofal plant lleol a'r cynllun peilot Rhoi Plant yn Gyntaf i gyd yn cynnig cyfle prin i ddatblygu'r cynnig a chanolbwyntio mwy ar ddarpariaeth addysg a gofal plant leol yn y blynyddoedd cynnar.

Mae dwy arolygiaeth yng Nghymru yn gyfrifol am fonitro ansawdd lleoliadau addysg gynnar a gofal plant, sef Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Mae'r ddwy arolygiaeth wedi datblygu fframwaith arolygu ar y cyd sy'n seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o gynlluniau peilot cychwynnol, a bu'r fframwaith hwn yn destun rhagor o gynlluniau peilot. Mae Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar newydd Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru 2017i) yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu system arolygu ar y cyd ar gyfer meithrinfeydd preifat a thrydydd sector sy'n cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Mae Achub y Plant yn croesawu hyn ac yn gobeithio y bydd yn datblygu dealltwriaeth gyffredin o ystyr ansawdd ledled y sector. Hefyd, rydym yn gobeithio y bydd modd llwyddo yn y cyswllt hwn yn fuan o ystyried y cydweithio a fu eisoes rhwng y ddwy arolygiaeth. Fel y nodwyd uchod, roedd adolygiad Graham yn 2014 yn amlygu'r angen i wella'r system arolygu, ac rydym yn cytuno y bydd hyn yn allweddol wrth sicrhau rhagor o gysondeb ym maes addysg gynnar

a gofal plant ac wrth helpu i sicrhau bod cynnig o ansawdd ar gael i bob plentyn.

Nid oes unrhyw ofynion cyffredinol o safbwynt cymwysterau neu gymarebau staff i blant ar hyn o bryd ar gyfer y gweithlu addysg gynnar a gofal plant yng Nghymru. Dim ond yn 2016 y cyflwynwyd y gofyniad i sicrhau bod pob darparwr sy'n gofalu am blant hyd at 12 oed yn cael ei reoleiddio a'i arolygu. Mae'r astudiaeth EPPE yn pwysleisio pwysigrwydd bod ag ymarferwyr lefel uwch sydd â'r cymwysterau priodol ar gyfer addysg gynnar a gofal plant, gan fod hwn yn ffactor allweddol mewn gwella deilliannau i blant (Graham, 2014). Fodd bynnag, erbyn hyn mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynllun uchelgeisiol ar gyfer gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar hynod fedrus (Llywodraeth Cymru 2017i). Mae'r cynllun yn amlinellu llawer o newidiadau i safonau, hyfforddiant a chymwysterau staff sy'n gweithio ym meysydd gofal plant neu chwarae ar gyfer plant 0-12 oed. Hefyd, cyfeirir at ddyhead i wneud y sector yn ddewis gyrfa fwy deniadol sy'n cynnig 'swyddi o ansawdd gwell'. Mae Achub y Plant yn croesawu'r buddsoddiad hwn yn y gweithlu, gan nodi'n benodol bod yr adroddiad yn cydnabod y bydd yn bwysig iawn ar gyfer y plant mwyaf 'difreintiedig'.

CYFLWYNO SYSTEM ADDYSG GYNNAR A GOFAL PLANT MWY INTEGREDIG YNG NGHYMURU.

Wrth drafod darpariaeth symlach a chydlynol ar gyfer addysg gynnar a gofal plant, mae'n bwysig sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn rhan bwysig o'r ddarpariaeth. Mae tystiolaeth yn ymwneud ag argaeledd gofal plant cyfrwng Cymraeg yn awgrymu bod yna fylchau o hyd yn y ddarpariaeth mewn rhai ardaloedd o Gymru a bod y dulliau o asesu'r gofyn am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn amrywio. Mae strategaeth ddiweddar Llywodraeth Cymru - Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (Llywodraeth Cymru, 2017h) yn amlygu amcan hirdymor i sicrhau bod plant o dan bump oed yn cael digon o gyswllt â'r iaith Gymraeg i gychwyn ar eu taith tuag at ddod yn rhugl. Mae potensial sylweddol i'r broses o sefydlu a chyfuno'r amcan o ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel elfen hanfodol o'r agenda trechu tloedi a'r angen i wella mynediad at addysg gynnar a gofal plant o ansawdd uchel. Hefyd, rydym yn credu bod meddwl yn ofalus am ddefnyddio cyllid i gyflawni'r nod hwn yn cynnig cyfleoedd pwysig i sicrhau bod plant o bob math

ledled Cymru, waeth beth yw eu cefndir neu le bynnag y maent yn byw, yn cael y cyfle i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus a derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Mae Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar newydd Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru 2017i) yn ymrwymo dros y ddeng mlynedd nesaf i gynnig rhagor o gyfleoedd i staff gymhwyso trwy gyfrwng y Gymraeg a gwella eu sgiliau Cymraeg ynghyd â chymorth i staff mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg wella eu gallu i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gweithle.

Mae sicrhau bod darpariaeth flaenllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd cynnar, sef Dechrau'n Deg, yn fuddiol i blant hefyd yn rhan allweddol o ddarlun symlach, cydlynol ac effeithiol. Yn dilyn ein dadansoddiad ScotCen (Hinchliffe, 2017) o Astudiaeth Carfan y Mileniwm, mae ceisio deall sut mae addysg gynnar a gofal plant statudol yn effeithio ar blant sy'n byw mewn tlodi ac ar gau'r bwlch cyrhaeddiad o ddiddordeb penodol i ni. Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei gwerthusiad diweddaraf o'r rhaglen Dechrau'n Deg, a oedd yn canolbwyntio ar werthuso'r effaith ar gyrhaeddiad addysgol plant a oedd wedi manteisio ar wasanaethau'r rhaglen (Llywodraeth Cymru, 2017d). Mae'r gwerthusiad yn cyflwyno effeithiau gwahanol Dechrau'n Deg: effaith gadarnhaol uniongyrchol fach ar absenoldeb, dim effaith ar gyrhaeddiad ac effaith gymysg ar blant y nodwyd bod ganddynt Anghenion Addysgol Arbennig (cyfeirir at hyn fel nifer y plant ag AAA yn yr adroddiad). Nid yw'r gwerthusiad yn nodi bod Dechrau'n Deg yn cael unrhyw effaith uniongyrchol arwyddocaol ar gyrhaeddiad addysgol. Mae'r canfyddiadau hyn, a chymhlethdod cydnabyddedig gwerthuso'r rhaglen, yn amlygu'r angen i ystyried dewisiadau i wella'r broses o asesu cynnydd datblygiadol plant yn y blynyddoedd cynnar.

Mae cynnig blynyddoedd cynnar y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 4-7 oed hefyd wedi'i ddatblygu ar sail tystiolaeth ymchwil ryngwladol yn ymwneud â'r dulliau mwyaf effeithiol o ddarparu addysg gynnar a gofal plant. Roedd Adolygiad Donaldson (Donaldson, 2015) o'r cwricwlwm, 'Dyfodol Llwyddiannus', yn gadarnhaol yn ei asesiad o'r Cyfnod Sylfaen gan argymhell y dylai llawer o'i egwyddorion gael eu cynnwys yn y cwricwlwm newydd arfaethedig ar gyfer Cymru. Un o'r amcanion sydd ymhlyg yn y Cyfnod Sylfaen a nodwyd yn ddiweddarach yn y ddogfen Creu Cymunedau Cryf (Llywodraeth Cymru, 2013b) yw lleihau anghydraddoldebau mewn deilliannau

cymdeithasol ac addysgol. Yn y ddogfen hon, cyflwynodd Llywodraeth Cymru darged i: **“leihau'r bwlch rhwng lefelau cyrhaeddiad dysgwyr 7 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n cyrraedd y lefelau disgwylidig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, fel y caiff ei fesur gan ddangosydd y Cyfnod Sylfaen, o 10 y cant erbyn 2017. 18.3 y cant oedd y gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad plant sy'n cael prydau ysgol am ddim a phlant eraill yn 2012.”** (Llywodraeth Cymru 2013b, tud.14).

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae gwerthusiadau ac ymholiadau wedi codi cwestiynau am effaith y Cyfnod Sylfaen ar lefelau cyrhaeddiad plant o deuluoedd incwm isel. Yn 2015, nododd Ymchwiliad Pwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeilliannau addysgol plant incwm isel mai nodwedd bwysig o'r Cyfnod Sylfaen oedd lleihau anghydraddoldeb mewn deilliannau cymdeithasol ac addysg, ac oherwydd hynny, dylai fod rhywfaint o dystiolaeth bod y Cyfnod Sylfaen yn helpu i gau'r bwlch cyrhaeddiad. Ond nid oedd y Pwyllgor yn fodlon bod tystiolaeth o'r fath yn bodoli. Argymhellodd yr ymchwiliad y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu dealltwriaeth o'r rhesymau am y diffyg effaith a cheisio mynd i'r afael â nhw, er mwyn sicrhau bod potensial llawn y rhaglen yn cael ei gwireddi. Yn 2015, nododd yr adroddiad terfynol yn gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen nad yw cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, hyd yma, yn gysylltiedig ag unrhyw newidiadau arwyddocaol yn y gwahaniaethau mewn deilliannau addysgol rhwng disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 ar sail eu rhyw, eu hethnigrwydd neu eu cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim (Taylor et al. 2015). Ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim (dangosydd anfantais economaidd-gymdeithasol), mae'r gwerthusiad yn amcangyfrif eu bod bron 30% yn llai tebygol o gyflawni Lefel 4 neu uwch mewn Saesneg yn CA2 na disgyblion eraill. Ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, arhosodd y gwahaniaeth hwn ar yr un lefel (Taylor et al. 2015).

Mae'r data rydym yn ei gyflwyno yn yr adroddiad hwn o Astudiaeth Carfan y Mileniwm (Hinchliffe, 2017) yn amlygu ymhellach yr angen i ofyn pam nad yw nifer o ymyriadau amrywiol yn cael llawer o effaith ar gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant sy'n byw mewn tlodi a'u cyfoedion mwy cyfoethog. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'n debyg bod llawer o resymau am hyn, a gall ystod o ffactorau gwahanol wneud gwahaniaeth.

Oherwydd y prinder tystiolaeth sydd ar gael ar

hyn o bryd yn ymwneud ag effaith Dechrau'n Deg ac ymyriadau eraill, ni allwn fod yn hyderus bod ansawdd y ddarpariaeth bresennol ar gyfer addysg gynnar a gofal plant yng Nghymru yn ddigon da i gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant sy'n byw mewn tlodi a'u cyfoedion mwy cyfoethog. **Er mwyn helpu i olrhain yr effaith a chynyddu faint o dystiolaeth sydd ar gael, rydym yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar (EYDAF) a Phroffil y Cyfnod Sylfaen (FPP) ledled Cymru fel cam hanfodol ymlaen** (Llywodraeth Cymru, 2017e). Mae Achub y Plant yn croesawu'r ffaith fod EYDAF wedi'i gynllunio i gyd-fynd ag asesiadau sy'n cael eu cwblhau gan weithwyr iechyd proffesiynol er mwyn helpu i nodi oedi posibl i ddatblygiad, anghenion addysg arbennig neu anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar er mwyn llywio darpariaeth cymorth ychwanegol i blant sydd ei angen.

Gan ddychwelyd at y dystiolaeth a gyflwynwyd yn gynharach yn yr adroddiad yn ymwneud â phwysigrwydd cymorth yn y cyfnod cyn-enedigol i dair oed ar gyfer teuluoedd sy'n wynebu adfyd (Canolfan Datblygiad Plant Prifysgol Harvard, 2016), mae Achub y Plant yn cefnogi'r argymhelliad a wnaed gan Graham (2014) y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr EYDAF yn adnodd asesu cyffredin parhaus (yn cael ei ddefnyddio gan bob proffesiwn, lleoliad, asiantaeth a sector) ym mhob lleoliad plentynod cynnar 0-7 oed.

3.1 SICRHAU NAD OES UNRHYW BLENTYN YN CAEL EI ADAEL AR ÔL: MYND I'R AFAEL Â MATERION FFORDDIADWYEDD, HYBLYGRWYDD A HYGyrCHEDD ER MWYN SICRHAU DARPARIAETH GYFARTAL I BOB PLENTYN YNG NGHYMURU.

Gydol yr adroddiad hwn rydym wedi ystyried sut y gallai addysg gynnar a gofal plant o ansawdd uchel wneud gwahaniaeth sylweddol i blant sy'n byw mewn tlodi. Rydym wedi edrych ar sut y gallai un system gydlynol ar gyfer darparu addysg gynnar a gofal plant helpu i gyflawni hyn. Fodd bynnag, mae gormod o deuluoedd yng Nghymru yn parhau i geisio brwydro yn erbyn system sy'n gwneud bywyd yn fwy anodd. Mae talu am ofal plant yn mynd â chyfran enfawr o incwm teulu, ac mae'n anodd iawn deall y system - mae oriau am ddim ac eithriadau ar gael, ond mae'n gallu bod yn anodd gwneud synnwyr ohonynt (Dallimore, 2016). Mae hyn yn digwydd ar adeg pan fydd

teuluoedd yn wynebu pwysau newydd a chynyddol oherwydd newidiadau i'r economi a'r system les. Edrychodd yr adran flaenorol ar bwysigrwydd sicrhau bod system addysg gynnar a gofal plant gydlynol ar gael. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod unrhyw system yn fforddiadwy ac yn hawdd i deuluoedd ei defnyddio, fel eu bod yn derbyn y cymorth y mae ganddynt hawl iddo. Ar hyn o bryd, mae darpariaeth a hawliau addysg gynnar a gofal plant yng Nghymru yn parhau i fod yn gymhleth, ac nid yw'r gwasanaethau na'r ddarpariaeth a gynigir yn cael eu dosbarthu'n gyfartal nac yn hygyrch i deuluoedd ledled y wlad. Hefyd, erys marc cwestiwn mawr ynglŷn ag i ba raddau y maent yn cyrraedd yr holl blant sy'n byw mewn tlodi, ac yn aml iawn, ymddengys mai mater o hap a damwain yw a yw plant yn derbyn addysg gynnar a gofal plant o ansawdd uchel. Yn olaf, ychydig iawn o gymorth sydd ar gael i rieni sy'n dewis defnyddio gofal plant anffurfiol (trwy deulu neu neiniau a theidiau) yn y blynyddoedd cynnar neu'r rhai nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau addysg gynnar ffurfiol, i'w helpu i gefnogi addysg a datblygiad cynnar eu plentyn.

Yn yr adran hon, rydym yn dadlau bod cyfres o rwystrau yn atal plant sy'n byw mewn tlodi rhag manteisio ar y mathau o ddarpariaeth ansawdd uchel sy'n gallu gwneud gwahaniaeth. Yn aml iawn, mater o hap a damwain yw a yw plant yn gallu manteisio ar gymorth. Felly, mae Achub y Plant yn credu bod mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn o ran hygyrchedd, fforddiadwyedd a hyblygrwydd yn rhan allweddol o geisio mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad a chau'r bwlch hwn.

3.1.1 FFORDDIADWYEDD A CHOST: MYND I'R AFAEL Â RHWYSTRAU AR GYFER RHIENI

"Dim ond un lle gofal plant sydd ar gael yn [fy ardal] sydd ddim yn eithafol o ddrud. Nid oes llawer o warchodwyr plant yn yr ardal chwaith, ac roeddwn i'n lwcus iawn i ddod o hyd i'r un yr wyf yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd gyda chymhorthdal sylweddol. Ond mae'n parhau i fod yn rhy ddrud i'r rhan fwyaf o bobl leol. Gan fod cyflogau'n is yn yr ardal hon, mae'n rhaid i'r gost fod yn is. Yn ddiweddar, mae'r clwb ar ôl ysgol wedi agor yn ein pentref, ond hebdo ni fyddwn yn gallu gweithio'n llawn amser. Mae'n rhaid i mi weithio'n llawn amser er mwyn talu fy morgais a'r biliau." (Achub y Plant ac Ymddiriedolaeth y Teulu a Gofal Plant 2011)

Rydym yn derbyn bod cymorth ariannol uniongyrchol ar gyfer costau a fforddiadwyedd yng Nghymru yn parhau i gael ei benderfynu i raddau helaeth gan Lywodraeth y DU, a'i fod yn seiliedig ar hyn o bryd ar system gymhleth o hawliau a manteision treth trwy Gredyd Cynhwysol a Gofal Plant Di-dreth. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn gallu helpu rhieni i dalu am ofal plant trwy ariannu lleoedd. Mae rhai gwasanaethau ar gael yn gyffredinol ac wedi eu hariannu'n llawn gan y wladwriaeth, fel yr hawl i addysg gynnar yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant tair a phedair oed. Fel rhan o gynllun peilot newydd Llywodraeth Cymru, mae rhai ardaloedd yn cael 20 awr ychwanegol bellach. Mae gwasanaethau eraill, fel gwasanaethau gofal plant Dechrau'n Deg, wedi eu hariannu'n llawn, ac maent ar gael am ddim i rai rhieni yn unig gan ddiybnu ar le maent yn byw (Dallimore, 2016). Rhieni sy'n talu am y rhan fwyaf o wasanaethau gofal plant ffurfiol, ond mae llawer yn derbyn cymhorthdal gan system gymhleth o fanteision treth a budd-daliadau o dan Gredyd Cynhwysol a Gofal Plant Di-dreth (TFC) sy'n helpu rhai teuluoedd yn fwy nag eraill. Mae eraill yn dibynnu ar ofal plant anffurfiol gan ffrindiau neu neiniau a theidiau i helpu i lenwi'r bylchau, ond mae'r rhai nad ydynt yn derbyn cymorth o'r fath o dan anfantais bellach yn aml (Dallimore, 2016). Yng Nghymru, mae cyfrifoldeb am y systemau ariannu hyn wedi ei rannu, gyda Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am gyllid addysg gynnar, sy'n cael ei ddosbarthu gan lywodraeth leol mewn ffyrdd amrywiol, tra bod cyllid trwy'r system dreth a budd-daliadau'n seiliedig ar benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU. Mae hyn yn ychwanegu at y cymhlethdod ac yn golygu bod y broses o greu system gydllynol ac integredig yng Nghymru yn fwy heriol.

Gan gyd-fynd â chynllun peilot 30 awr estynedig Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd yn ddiweddar, mae gwaith ymchwil newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ceisio deall profiadau trefniadau gofal plant rhieni a gwarcheidwaid ar hyn o bryd (Llywodraeth Cymru, 2017f). Nodwyd bod sawl prif ffactor yn effeithio ar sut mae rhieni yn dewis ac yn cyfuno gofal plant, gan gynnwys; cost, lleoliad ac addasrwydd gofal plant gydag ymrwymadau gwaith. Nododd llawer o rieni mai cost uchel darpariaeth meithrinfeydd oedd y rhwystr mwyaf i deuluoedd wrth geisio canfod trefniadau gofal plant sy'n diwallu eu hanghenion; nodwyd bod cyfran sylweddol o gyflogau mamau sy'n gweithio'n rhan-amser yn mynd tuag at gostau gofal plant. Ategir hyn gan ganfyddiadau'r Arolwg Gofal Plant eleni gan Ymddiriedolaeth y Teulu a Gofal Plant, sy'n nodi bod teuluoedd yn parhau

i wario hyd at 45 y cant o'u hincwm gwario ar gostau gofal plant cyfartalog (Ymddiriedolaeth y Teulu a Gofal Plant, 2017).

Dylid llongyfarch Llywodraeth Cymru am wneud popeth o fewn ei gallu i ddatblygu dulliau arloesol o ddarparu gofal plant yng Nghymru. Yn benodol, rhaid nodi ei bod yn targedu cymorth i geisio gwella rhagolygon cyflogaeth rhieni sy'n nodi mai gofal plant yw'r prif rwystr i gyfleoedd hyfforddiant neu swyddi. Ym mis Rhagfyr 2016, lansiodd Llywodraeth Cymru brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE). Mae PaCE yn brosiect gwerth £13.5m a ariennir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Mae'r rhaglen yn cynnwys cost gofal plant tra bod rhieni yn mynychu hyfforddiant, profiad gwaith neu'n gwirfoddoli, gan ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael swydd. Nod y rhaglen yw cynorthwyo rhieni 25 oed a hŷn nad ydynt mewn cyflogaeth, a rhieni ifanc (16-24) nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET). Mae'r rhieni hyn yn cael cynnig cymorth ac atebion unigol i ddiwallu eu hanghenion gofal plant trwy Gynghorwyr Cyflogaeth Rhieni cymunedol. Mae PaCE yn datblygu gwasanaethau yn y gymuned fel Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, ac mae ar gael ym mhob un o awdurdodau lleol Cymru. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £5 miliwn i CWLWM, consortiwm gofal plant sy'n cynnwys y pum prif sefydliad gofal plant, trwy Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd er mwyn eu helpu i ddatblygu atebion i'r problemau sy'n wynebu teuluoedd sy'n chwilio am ofal plant. Fodd bynnag, nid yw effeithiolrwydd yr ymyriadau hyn wedi'i werthuso eto. Hefyd, er bod y defnydd arloesol o Gyllid Cymdeithasol Ewrop yn cael ei groesawu, mae cynaliadwyedd prosiectau o'r fath yn peri pryder. Oherwydd y dadleuon cyson ynglŷn â Brexit a'r effaith ar gyllid yn y dyfodol, mae angen ystyried modelau cyllid mwy cynaliadwy i gefnogi mynediad mamau i'r farchnad lafur a mynd i'r afael â materion fforddiadwyedd ar gyfer pob un o bedair gwlad y DU.

3.1.2 MYNEDIAD, HYBLYGRWYDD AC ARGAELEDD: MYND I'R AFAEL Â RHWYSTRAU AR GYFER RHIENI

Nid costau yw'r unig broblem: mae llawer o rieni'n methu dod o hyd i'r addysg gynnar a gofal plant sydd eu hangen arnynt, neu mae'n bosibl nad ydynt yn gymwys amdanynt. Yng Nghymru, o dan y system bresennol, mae graddfa'r ddarpariaeth yn parhau i ddiybnu ar oedran plant a ble maent yn

byw. Yn aml iawn, mae'r system bresennol yn golygu nad oes darpariaeth gyfartal ar gael i bob plentyn. Hefyd, mae argaeledd gofal plant yn amrywio'n sylweddol mewn ardaloedd gwahanol o Gymru, ac er bod rhai rhieni'n manteisio ar amrywiaeth eang o ddewisiadau, mae llawer llai o ddewisiadau ar gael mewn ardaloedd eraill, ac mae'n bosibl nad ydynt yn diwallu anghenion plant a theuluoedd.

DARPARIAETH STATUDOL: GADAEL DYFODOL PLANT I HAP A DAMWAIN?

Y CYFNOD SYLFAEN

Yn sgil cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn 2008, mae gan bob plentyn tair oed yng Nghymru hawl i le addysg gynnar a gofal plant rhan-amser di-dâl am o leiaf deg awr yr wythnos yn ystod y tymor. Mae hyn yn gyfystyr â chyfanswm o 380 awr (mae rhai awdurdodau lleol fel Bro Morgannwg wedi tueddu i gynnig mwy).

Unodd y Cyfnod Sylfaen hen drefn y Blynyddoedd Cynnar (o 3 i 5 oed) a Chyfnod Allweddol 1 (o 5 i 7 oed) yn y Cwricwlwm Cenedlaethol i greu un cyfnod addysg ar gyfer plant rhwng tair a saith oed. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn ariannu addysg ran-amser ar gyfer plant tair oed mewn ysgolion (lleoliadau a gynhelir), ac mae pob awdurdod lleol ond un (Castell-nedd Port Talbot) yn cynnig addysg gynnar mewn lleoliadau eraill (nas cynhelir). Mae lleoliadau nas cynhelir yn cynnwys darparwyr gofal dydd llawn a gofal dydd sesiynol y gellir eu hariannu gan yr awdurdod lleol fesul plentyn ar gyfer darparu safle addysg gynnar. Er bod Llywodraeth Cymru wedi pennu bod rhaid i blentyn dderbyn isafswm o 10 awr yr wythnos, mae'r oriau a ariennir ac a ddarperir yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Mae plant tair oed mewn rhai ardaloedd yn derbyn mwy na'r gofyniad sylfaenol. Yn aml, mae awdurdodau lleol yn cynnig 12.5 awr neu hyd yn oed 15 awr yr wythnos mewn lleoliadau a gynhelir, ac mae nifer yn ariannu dros 10 awr yr wythnos mewn lleoliadau nas cynhelir.


Mae'r ffaith fod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno mewn ffordd anhyblyg ar adegau yn gallu bod yn rhwystr i rieni hefyd. Yn 2013, sefydlodd Llywodraeth Cymru gynllun peilot hyblygrwydd, gyda phedwar awdurdod lleol (gan gynrychioli pob rhan o Gymru) - Sir Gaerfyrddin, Sir Ddinbych, Castell-nedd Port Talbot, a Chasnewydd - yn cymryd rhan (Llywodraeth Cymru, 2016c). Aeth pob un o'r awdurdodau lleol hyn ati mewn ffyrdd gwahanol i sicrhau bod eu cynnig yn y Cyfnod Sylfaen yn hyblyg, gan gynnwys darparu gofal

cofleidiol a darpariaeth oriau anghymdeithasol, a chyflogi gweithwyr cyswllt teuluoedd (Llywodraeth Cymru, 2016c). Gwerthuswyd Cynllun Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen yn 2016, gan nodi bod y mathau o hyblygrwydd sy'n cael eu cynnig yn helpu cydbwysedd bywyd/gwaith rhieni yn gyffredinol, ac yn sicrhau bod eu harferion dyddiol yn haws i'w rheoli – yn enwedig o ganlyniad i ofal plant cofleidiol (Llywodraeth Cymru, 2016c). Nodwyd bod angen gwneud rhagor o waith i ymchwilio i effaith bosibl mwy o hyblygrwydd ar leoliadau'r Cyfnod Sylfaen a'r effaith ar gyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Hefyd, nododd fod angen archwilio'r ffaith nad yw nifer gymharol fach o blant yng Nghymru (rhwng 5-12%) yn manteisio ar eu 10 awr statudol o addysg Cyfnod Sylfaen y blynyddoedd cynnar, gan argymhell bod angen gwneud mwy o waith ymchwil i *nodi'r rhesymau posibl am hyn*. Hefyd, mae'r gwerthusiad yn nodi bod angen egluro nod strategol cynyddu hyblygrwydd a'r rhesymeg sy'n sylfaen i'r strategaeth wrth gyflwyno unrhyw ddarpariaeth hyblyg yn y dyfodol.

CYNNIG ADDYSG GYNNAR A GOFAL PLANT UWCH AR GYFER PLANT 3 A 4 OED – CYNLLUN PEILOT 30 AWR AM DDIM AR GYFER RHIENI SY'N GWEITHIO

O fis Medi 2017 ymlaen, bydd rhieni sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed mewn ardaloedd o Gymru sy'n rhan o'r cynllun peilot yn derbyn cyfanswm o 30 awr o addysg gynnar a gofal plant yn ystod y tymor. Bydd yr addysg gynnar sy'n cael ei darparu am ddim ar hyn o bryd gan y Cyfnod Sylfaen yn rhan o'r cynnig hwn. Am 9 wythnos o'r flwyddyn, y tu allan i'r tymor, bydd rhieni yn derbyn 30 awr yr wythnos o ofal plant hefyd.

Mae'r sail resymegol ar gyfer cynnig a dargedir yn hytrach na chynnig cyffredinol yn cael ei chyflwyno mewn papur dewisiadau a ddatblygwyd gan y



Llun: Claire Hewitt / Achub y Plant

Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (Paull a Xu, 2015). Mae'r papur yn dadansoddi'r effeithiau ar incwm y teulu a tlodi ac ar waith rhieni. Amcangyfrifwyd y byddai cynnig cyffredinol yn arwain at gost flynyddol i gyllideb Llywodraeth Cymru o £144 miliwn, o'i gymharu â £61 miliwn ar gyfer y gofyniad gwaith, ar sail defnydd llawn o'r cynnig a chost darparu o £4 yr awr. Dangosodd y dadansoddiad effaith pob cynnig ar dlodi plant gan ddefnyddio mesur sy'n didynnu costau gofal plant o incwm net. Mae'n dangos y byddai cynnig cyffredinol yn lleihau tlodi plant mwy na dewis sy'n cynnwys gofyniad gwaith. Yn ogystal, ni wnaeth y dadansoddiad gynnwys unrhyw waith modelu o effaith rhagor o ddarpariaeth gyffredinol ar y bwlch cyrhaeddiad a deilliannau addysgol plant sy'n byw mewn tlodi yn y dyfodol.

Mae Achub y Plant yn pryderu bod y cynnig 30 awr ar gael i rieni sy'n gweithio yn unig, a gan fod diffyg tystiolaeth y bydd y plant tlotaf ar eu hennill, rydym yn pryderu nad yw'n gynnig teg i bob plentyn. Rydym yn dadlau bod yna ddulliau gwell o fuddsoddi mewn addysg gynnar a gofal plant. Mae'r dystiolaeth gryfaf yn awgrymu y byddai hawl i ddarpariaeth ran-amser (15 awr) ar gyfer pob plentyn rhwng dwy a phedair oed yn fwy effeithiol wrth gau'r bwlch cyrhaeddiad a gwella deilliannau addysgol plant sy'n byw mewn tlodi yn y dyfodol.

DECHRAU'N DEG

Yn ogystal â'r Addysg Gynnar a Gofal Plant cyffredinol a ddarperir am ddim trwy'r Cyfnod Sylfaen, mae rhai plant 2 oed yng Nghymru yn derbyn gofal plant ychwanegol am ddim o dan raglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru. Mae Dechrau'n Deg ar gael i deuluoedd sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, a gan fod y cynllun yn seiliedig ar ardaloedd, yn aml mae cymhwysedd yn dibynnu ar ble mae pobl yn byw yn hytrach na'u hanghenion. Ar sail tystiolaeth ryngwladol o'r ymyriadau sy'n gallu cael yr effaith fwyaf ar blant, mae gwasanaethau'r cynllun yn darparu ymweliadau iechyd gwell, cymorth rhianta, cymorth ar gyfer datblygiad iaith gynnar (yn bennaf ar ffurf rhaglenni iaith a chwarae) a gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel am ddim.

Dechreuodd y rhaglen yn 2006/07 ac fe gafodd ei hystyried yn 2012. Mae Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant rhan-amser 'o ansawdd' ar gyfer pob plentyn 2 i 3 oed cymwys am 2.5 awr y dydd, 5 diwrnod yr wythnos am 39 wythnos. Hefyd, dylai hyn gynnwys o leiaf 15 sesiwn o ddarpariaeth gofal plant ar gyfer teuluoedd yn ystod gwyliau'r ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddyblu nifer y plant sy'n manteisio ar y rhaglen, o 18,000 i 36,000, erbyn diwedd 2016. Llwyddodd y Llywodraeth i gyrraedd y targed hwn yn ystod 2014-15. Yn ôl y ffigurau diweddaraf, erbyn hyn mae Dechrau'n Deg yn darparu gwasanaethau i ychydig dros 38,000 o blant. Ar ôl i'r cynllun gael ei ymestyn, cafodd elfen o allgymorth ei gynnwys hefyd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol nodi plant o'r tu allan i ardaloedd penodedig Dechrau'n Deg a fyddai'n elwa ar y gwasanaethau. Ym mis Ionawr 2014, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai elfen allgymorth Dechrau'n Deg yn galluogi awdurdodau lleol i ddewis o gyfres o opsiynau a fyddai'n cael eu cyflwyno fel rhan o gynlluniau cyflenwi Dechrau'n Deg.

Mae llawer o bobl yn manteisio ar ddarpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg; cafodd 86 y cant o gynigion gofal plant mewn lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg eu derbyn yn 2015-16 (StatsCymru, 2016), er bod y ffigur hwn 3.5 pwynt yn is na'r ffigur yn 2012-13 (90 y cant). Derbyniodd 7,772 o blant ofal plant Dechrau'n Deg yn 2015/16. Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganlyniadau ail adroddiad ar brosiect ymchwil ansoddol tair blynedd gyda rhieni Dechrau'n Deg. Amcan 'Teuluoedd Dechrau'n Deg: adroddiad Cam 2' oedd archwilio profiadau teuluoedd o'r Rhaglen Dechrau'n Deg (2017g). O ran rhwystrau yn cael mynediad at elfen gofal plant Dechrau'n Deg, roedd y rhain yn cynnwys lleoliad lleoliadau gofal plant ac amseroedd sesiynau. Ymysg yr ymatebion, nodwyd bod amser dechrau neu amser gorffen y sesiynau yn gwrthdaro â'r amser pan oedd rhieni yn gorfod casglu eu plant hŷn o'r ysgol, felly ni allent fanteisio ar yr hawl i ofal plant. Hefyd, nododd rhieni sy'n gweithio fod angen darpariaeth gofal plant arnynt am fwy na'r sesiynau 2.5 awr sy'n cael eu cynnig trwy Dechrau'n Deg oherwydd ymrwymyadau gwaith.

Ym mis Rhagfyr 2016, aeth Llywodraeth Cymru ati i gyhoeddi data yn amcangyfrif canran y plant 0 i 4 oed sydd mewn amddifadedd incwm yn ôl Ardal Cynnyrch Ehangach Is (LSOA). Mae Achub y Plant wedi comisiynu dadansoddiad (Uned Ddata Llywodraeth Leol, 2017) sy'n archwilio'r data hwn ynghyd â gwybodaeth bresennol am gwmpas Dechrau'n Deg er mwyn ystyried a oes unrhyw glystyrau o blant yr ystyrir eu bod mewn amddifadedd incwm nad ydynt wedi eu cynnwys yn y rhaglen Dechrau'n Deg. Dangosodd y dadansoddiad fod:

- **49,014 (28%)** o blant (0 i 4 oed) yng Nghymru yn cael eu hystyried i fod mewn amddifadedd incwm;
- **21,768 o blant (0 i 4 oed)** yng Nghymru sydd mewn amddifadedd incwm yn byw mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg. **Mae hyn yn gyfystyr â 45% o'r holl blant sy'n byw mewn tlodi incwm.**
- Hefyd, mae'n bwysig nodi'r gwahaniaethau mawr ledled Cymru. Mae amcangyfrifon o blant sy'n byw mewn tlodi incwm mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn amrywio yn ôl awdurdod lleol, gan amrywio o 25% ym Merthyr i 60% yng Ngheredigion.

Mae 107 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (LSOA) yng Nghymru, ac mae o leiaf 40% o'r plant sy'n preswyllo yno (0 i 4 oed) yn cael eu hystyried i fod mewn amddifadedd incwm nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhaglen Dechrau'n Deg.

Yr Ardal Gynnyrch Ehangach Is o ddiddordeb sydd â'r nifer fwyaf o blant (0 i 4 oed) mewn amddifadedd incwm yw Gaer 5 yng **Nghasnewydd**. Mae 92 o blant (0 i 4 oed) yn preswyllo yn yr ardal hon yr ystyrir eu bod yn byw mewn amddifadedd incwm. Yr Ardal Gynnyrch Ehangach Is o ddiddordeb sydd â'r ganran uchaf o blant (0 i 4 oed) yr ystyrir eu bod yn byw mewn amddifadedd incwm yw Dwyrain y Rhyl 1 yn **Sir Ddinbych**. Yn yr ardal hon, ystyrir bod 74% o blant yn byw mewn amddifadedd incwm.

Mae gan y 10 Ardal Gynnyrch Ehangach Is o ddiddordeb ledled Cymru â'r ganran uchaf o blant mewn amddifadedd incwm gyfanswm o tua 752 o blant yn preswyllo yno (0 i 4 oed), ac ystyrir bod ychydig yn llai na 485 ohonynt yn byw mewn amddifadedd incwm. Mae hyn yn 65% o blant 0 i 4 oed yn yr ardaloedd hyn.

Mae gan bob un ond dau o awdurdodau lleol Cymru Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is o ddiddordeb. Nid oedd unrhyw ardaloedd posibl y gellid eu hystyried yn Sir Fynwy a Phowys. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r ardaloedd Dechrau'n Deg presennol fod yn ddigonol yn yr awdurdodau hyn, felly nid yw'r dadansoddiad yn eu hystyried. **Caerdydd** yw'r awdurdod lleol â'r nifer fwyaf o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is o ddiddordeb (24). Mae gan chwe awdurdod lleol fwy na 5 Ardal Gynnyrch Ehangach Is o ddiddordeb.

Mae gwybodaeth fanylach am y gwaith ymchwil hwn ar gael ar gais.

DIGONOLRWYDD GOFAL PLANT: DARPARIAETH FFURFIOL ANSTATUDOL

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi yn ddiweddar bod y 'Cynnig Gofal Plant i Gymru' 30 awr newydd yn "debygol o fod yn brif ysgogydd newid ar gyfer y sector gofal plant yn y blynyddoedd i ddod" (Llywodraeth Cymru, 2017c). Fodd bynnag, nid oes sicrwydd eto a oes modd gwireddu'r weledigaeth o gyflwyno'r cynnig gwell ledled Cymru o fewn y seilwaith gofal plant presennol yng Nghymru (Dallimore a Graham, 2017). Yng Nghymru, yn wahanol i Loegr, ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o blant tair a phedair oed naill ai'n derbyn addysg gynnar ran-amser neu lawn amser yn y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion trwy'r sector a gynhelir. O ganlyniad, nid oes gan Gymru sector gofal plant annibynnol amrywiol, wedi'i sefydlu sy'n gallu helpu i lenwi unrhyw fylchau a darparu gofal plant ychwanegol. Mae'r ymateb o Loegr i'r cynnig newydd o 30 awr wedi dangos bod yna heriau sylweddol i gyflwyno'r cynnig, hyd yn oed mewn sector gofal plant sydd â chyfran llawer uwch o ddarparwyr gofal plant preifat a gwirfoddol.

Er mwyn helpu i asesu hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau dadansoddiad newydd (Llywodraeth Cymru 2017c) i amcangyfrif gallu gofal plant yng Nghymru er mwyn treialu'r cynnig a chyflawni'r bwriad i gyflwyno'r cynnig ledled Cymru erbyn 2020. Mae'r adroddiad yn amcangyfrif bod tua 175,000 o blant hyd at bedair oed yn byw yng Nghymru. Mae cyfanswm o ychydig yn llai nag 80,000 o leoedd gofal plant ffurfiol, ac mae 45,000 o'r rhain yn lleoedd dydd llawn ar gyfer plant 0-4 oed. Felly, nid oes digon o leoedd i sicrhau bod pob plentyn yn gallu mynychu'n llawn amser. Mae tua dwy ran o dair o aelwydydd â phlant dibynnol tair neu bedair oed yn gymwys i dderbyn y Cynnig Gofal Plant newydd. Pe bai'r holl blant sy'n gymwys i dderbyn y cynnig yn ei dderbyn, byddai angen ychydig dros 46,000 o leoedd llawn amser. O ganlyniad, ar sail amcangyfrifon presennol, pe bai pob lle llawn amser yn cael ei neilltuo i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant, ni fyddai digon o leoedd o hyd. Hefyd, mae'r dadansoddiad yn amcangyfrif nifer yr oriau sydd ar gael i blant ym mhob ardal, pe baent i gyd eisiau mynychu lleoliad gofal plant ffurfiol. Mae'r canlyniadau'n dangos gwahaniaethau mawr ledled Cymru. Mae'n awgrymu nad yw'r ardaloedd sydd â'r gallu mwyaf fesul plentyn hyd yn oed yn gallu darparu mwy na thua chwe awr fesul plentyn; nid oes darpariaeth gofal plant ar gael o gwbl mewn rhai ardaloedd. Lefel yr argaeledd ar gyfartaledd ledled Cymru yw dwy awr a 40

munud fesul plentyn. Hefyd, ymddengys bod lefelau gallu gofal plant yn uwch mewn ardaloedd trefol a chyfoethog. Mae'r cyfartaleddau yn uwch yn yr ardaloedd o amgylch prif drefi a dinasoedd na mewn ardaloedd mwy gwledig. Yn benodol, mae Achub y Plant yn pryderu bod lefelau argaeledd is yn amlwg mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig. Er enghraifft, yn gyffredinol mae llai nag un awr a hanner o ofal plant ar gael fesul plentyn yn y Canolbarth a'r De.

Mae'r dadansoddiad hwn yn peri pryder mawr os ydym yn ystyried yr hyn y mae'r adroddiad wedi ei ddangos hyd yn hyn yn glŷn â phwysigrwydd addysg gynnar a gofal plant o ansawdd uchel fel rhan o'r broses o leihau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer y plant tlotaf. Os yw materion strwythurol yn effeithio ar argaeledd gofal plant mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig o Gymru, mae angen deall a mynd i'r afael ar frys ag effaith hyn ar y plant tlotaf sy'n defnyddio darpariaeth addysg gynnar a gofal plant o ansawdd uchel. Mae Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017c) wedi datgan, fel rhan o'r gwaith o lunio cynllun y gweithlu, bod y sector gofal plant yng Nghymru wedi cael statws sector blaenoriaeth. Hefyd, cyhoeddwyd cyllid newydd—dros £100,000 i gryfhau'r sector gofal plant ym mis Awst 2017. Mae Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynnyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru 2017i) yn amlinellu ei dull newydd o ddatblygu capasiti yn y sector sy'n canolbwyntio ar ddarparu cymorth busnes i'r sector. Mae'r cymorth hwn ar gyfer datblygu capasiti yn cael blaenoriaeth yn unol â dyheadau i ehangu'r cynnig 30 awr i rieni sy'n gweithio. Mae Achub y Plant yn pryderu'n fawr am y dull gweithredu hwn, yn gyntaf oherwydd y ffaith fod prinder tystiolaeth bod y cynnig 30 awr yn cael effaith gadarnhaol ar blant neu gyflogaeth rhieni, ac yn ail, heb fframwaith arolygu a rheoleiddio cadarn a chyffredin, mae'n anodd gweld sut y gellir sicrhau ansawdd darpariaeth.

RÔL GOFAL PLANT ANFFURFIOL

Wrth ystyried sut i ddarparu addysg gynnar a gofal plant er mwyn sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, mae angen ystyried rôl gofal plant anffurfiol yn y darlun cyflawn o ofal plant yng Nghymru. Mae Dallimore (2016) o Brifysgol Bangor wedi bod yn astudio cyfraniad anffurfiol gofal plant at ddewis gofal plant yng Nghymru. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn enghraifft brin o ymchwil yn ymwneud â gofal plant anffurfiol yng Nghymru – sy'n cael ei ddarparu'n aml gan deulu, ffrindiau a neiniau

a theidiau. Mae canfyddiadau'r gwaith ymchwil cynnar hwn yn nodi arwyddocâd gofal o'r fath ar gyfer plant ifanc yng Nghymru. Bydd deall hyn yn well yn bwysig fel rhan o'r drafodaeth ar ansawdd darpariaeth addysg gynnar a gofal plant. Ar sail y gwaith ymchwil cynnar hwn, gallwn awgrymu'n ofalus ei bod yn bosibl bod plant o deuluoedd incwm is yn derbyn gofal yn y cartref gan aelodau'r teulu a ffrindiau pan nad ydynt yn manteisio ar addysg gynnar a gofal plant yn yr ysgol neu trwy leoliadau Dechrau'n Deg. Er bod angen gwneud rhagor o waith ymchwil i ddeall hyn yn llawn, ymddengys bod cefnogi rhieni, gofalwyr a neiniau a theidiau i gynorthwyo addysg gynnar eu plant yn elfen bwysig o'r darlun.

Mae Ffyniant i Bawb: Strategaeth Genedlaethol (2017b) Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r bwriad i '*cyflwyno model newydd o Ganolfannau Dysgu Cymunedol a fydd yn darparu ystod estynedig o wasanaethau, megis gofal plant, cymorth i rieni, dysgu i deuluoedd a mynediad at gyfleusterau i'r gymuned, a hynny oll wedi'i ddatblygu o amgylch y diwrnod ysgol*'. Er ein bod yn parhau i geisio deall sut fydd y model hwn yn gweithio yn ymarferol, mae'n ymddangos yn gyfle rhagorol i archwilio sut i gynorthwyo rhieni, gofalwyr a neiniau a theidiau i ddatblygu sgiliau a hyder i gefnogi addysg a datblygiad cynnar eu plant. Mae gan Achub y Plant arbenigedd sylweddol ym maes ymgysylltu â theuluoedd a rhaglenni a allai gynorthwyo'r gwaith hwn, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda phartneriaid i gefnogi'r datblygiad hwn.

Mae Achub y Plant yn credu bod pob plentyn yn haeddu dechrau teg mewn bywyd. Dylai pob plentyn gael addysg gynnar a gofal o'r un ansawdd a mynediad cyfartal at gyfleoedd, waeth beth yw ei anghenion, ei gefndir teuluol, ble mae'n byw neu faint o arian y mae ei rieni'n ei ennill. Ni ddylem beryglu dyfodol plant. Rydym yn credu bod angen rhoi'r flaenoriaeth bennaf i sicrhau bod gofal plant o ansawdd ar gael i bawb, sut bynnag y caiff ei ddarparu. Hefyd, mae angen dileu'r rhwystrau o ran cost a hyblygrwydd sy'n dal i wynebu gormod o deuluoedd sy'n byw mewn tloidi yng Nghymru. Bydd hyn yn gwella cysondeb ac yn lleihau'r elfen o 'hap a damwain' pan fydd gofalwyr a rhieni yn dewis lleoliad ar gyfer eu plentyn.

4 Y dyfodol a'r camau nesaf



Llun: Claire Hewitt / Achub y Plant

Mae'r adroddiad hwn wedi defnyddio dadansoddiad newydd a thystiolaeth ryngwladol ehangach sy'n dangos yr hyn sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf yn y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant sy'n byw mewn tldi. Felly, mae Achub y Plant yn galw am gynnig addysg gynnar a gofal plant clir, syml a chydlynol ar gyfer Cymru. Rydym yn cydnabod bod hwn yn gynllun uchelgeisiol a hirdymor.

Mae'r system bresennol yng Nghymru yn rhanedig ac yn dameidiog. Gwyddom fod Cymru wedi ymrwmo i ddatrys y pos, ac mae wedi gwneud camau mawr tuag at ddarparu addysg gynnar a gofal plant o ansawdd uchel i nifer gynyddol o blant yng Nghymru. Serch hynny, mae rhai elfennau sy'n allweddol i greu system gyda'r gorau yn y byd ar gyfer rhieni a chael mwy o effaith gadarnhaol ar blant, ar goll o hyd. Mae ein ffigurau yn dangos yn glir bod llawer o blant mewn tldi yn cael eu gadael ymhell ar ôl. Ategir hyn gan werthusiadau o raglenni allweddol Llywodraeth Cymru sy'n cwestiynu pa mor effeithiol yw rhaglenni presennol wrth gau'r bwlch cyrhaeddiad. Rydym yn pryderu

bod rhan o'r broblem yn deillio o'r ffaith mai mater o hap a damwain yw mynediad plant sy'n byw mewn tldi at addysg gynnar a gofal plant, a'u cymhwysedd am y ddarpariaeth, a bod llawer o blant sy'n byw mewn tldi yn methu manteisio ar addysg gynnar a gofal o ansawdd uchel a allai helpu i unioni'r cydbwysedd a sicrhau nad ydynt ar ei hôl hi o'i gymharu â'u cyfoedion mwy cyfoethog wrth ddechrau'r ysgol.

Mae ceisio llenwi'r bylchau hyn a chwblhau'r jig-so mewn ffordd sy'n llwyddo i gefnogi addysg gynnar plant ifanc yn her enfawr. Mae pob un o'n galwadau isod yn cynrychioli darn o'r hyn a ddisgrifir gennym yn jig-so addysg gynnar a gofal plant. Rydym wedi canolbwyntio ar y camau tymor byr ac uniongyrchol sydd angen eu rhoi ar waith yn ein barn ni er mwyn symud tuag at system sy'n helpu plant ifanc yng Nghymru i gyflawni deilliannau/ cerrig milltir addysg gynnar yn yr hirdymor. Mae angen sicrhau bod yr elfennau sylfaenol hyn ar waith cyn y gallwn ddechrau datrys y pos o sut i sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn cael ei adael ar ôl. Gall pob un ohonom helpu i ddatrys y pos a gwneud gwahaniaeth ar gyfer y dyfodol ac ar gyfer pob plentyn yng Nghymru.

ARGYMHELLION ACHUB Y PLANT

Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru wneud y canlynol:

1 Llenwi'r bylchau: Cyflwyno un system syml a chydlynol ar gyfer addysg gynnar a gofal plant o ansawdd uchel

- Darparu diweddariadau allweddol yn ymwneud â chynnydd yn erbyn ymrwymadau, a gweithredu argymhellion ar gyfer 'Un Fframwaith Ansawdd' ym maes Addysg Gynnar a Gofal Plant yng Nghymru.
- Sicrhau bod un Gweinidog yn gyfrifol am bob agwedd ar Addysg Gynnar a Gofal Plant (gan gynnwys darpariaeth Gymraeg) a sicrhau bod Addysg Gynnar a Gofal Plant yn ganolog i gau'r bwlch cyrhaeddiad.

2 Nid oes unrhyw blentyn yn colli tir: Sicrhau mynediad cyfartal at Addysg Gynnar a Gofal Plant ar gyfer holl blant Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer pob plentyn sy'n byw mewn tldi:

- Gwarantu 15 awr yr wythnos o Addysg Gynnar a Gofal Plant yn rhad ac am ddim ar gyfer pob plentyn rhwng dwy a phedair oed sy'n byw mewn tldi:

- Ymestyn y cymhwysedd sylfaenol ar gyfer Addysg Gynnar a Gofal Plant o 10 awr i 15 awr yr wythnos ar gyfer plant tair a phedair oed ar aelwydydd lle nad oes neb yn gweithio
- Cyflwyno hawl newydd i 15 awr yr wythnos o Addysg Gynnar a Gofal Plant ar gyfer pob plentyn dwy oed sy'n byw mewn tldi

Rydym yn gofyn i bob un o'r pleidiau gwleidyddol:

- **Gefnogi ein cenhadaeth i gwblhau'r 'jig-so addysg gynnar a gofal plant' a'r galwadau uchod**

Rydym yn gofyn i'r holl randdeiliaid:

- **Gefnogi rhieni, gofalwyr a neiniau a theidiau i gymryd diddordeb yn addysg gynnar eu plant** yn y cartref trwy gydweithio i archwilio sut mae lleoliadau addysg gynnar a gofal plant a Chanolfannau Addysg Gymunedol Ffyniant i Bawb yn gallu cefnogi teuluoedd.

Cenhadaeth Achub y Plant yw hyrwyddo addysg gynnar. Rydym am sicrhau bod Cymru yn arwain y byd yn ei hagwedd at addysg gynnar a gofal plant, a thros y pum mlynedd nesaf rydym wedi ymrwymo i helpu i gasglu'r dystiolaeth, creu'r dadleuon o blaid newid a dechrau'r sgysysau sydd eu hangen i sicrhau bod hyn yn digwydd.



Llun: Clare Hewitt / Achub y Plant

Cyfeiriadau

- Bellis, M.A., Ashton, K., Hughes, K., Ford, K., Bishop, J. Paranjothy, S. (2015). *Astudiaeth Profiadau Niweidiol Mewn Plentyndod (ACE): Profiadau Niweidiol Mewn Plentyndod a'u heffaith ar ymddygiad sy'n niweidio iechyd ymysg oedolion Cymru*. Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar gael yn: [http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PRIDDocs.nsf/7c21215d-6d0c613e80256f490030c05a77d051ad7fad077c80257f370038b0b7/S-FILE/ACE%20Report%20FINAL%20\(W\).pdf](http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PRIDDocs.nsf/7c21215d-6d0c613e80256f490030c05a77d051ad7fad077c80257f370038b0b7/S-FILE/ACE%20Report%20FINAL%20(W).pdf). [Fel ar: 17.11.17].
- Blanden, J., Gregg, P. a Machin, S. (2005), 'Intergenerational mobility in Europe and North America', Centre for Economic Performance.
- Brooks-Gunn, J. a Duncan, G. (1997) 'The Effects of Poverty on Children', *The Future of Children*, Cyfrol 7, Rhif 2, tt. 55–71
- Canolfan Datblygiad Plant Prifysgol Harvard (2016). *From Best Practices to Breakthrough Impacts: A Science-Based Approach to Building a More Promising Future for Young Children and Families*. Ar gael yn www.developingchild.harvard.edu.
- AGGCC (2016a). *Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd: 2015-2016: Gwella gofal oedolion, gofal plant a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru*. Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Ar gael yn: <http://cssiw.org.uk/docs/cssiw/report/160922annualreportcy.pdf>. [Fel ar: 17.10.17].
- Cattan S, Crawford, C a Dearden, L (2014). *The economic effects of pre-school education and quality*. IFS Reports, Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. Ar gael yn: <https://www.ifs.org.uk/publications/7430>. [Fel ar: 10.10.17].
- Comisiynydd Plant Cymru (2017). *Adroddiad Blynyddol 16-17. Abertawe: Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru*. Ar gael yn: <https://www.complant-cymru.org.uk/adroddiad-blynyddol-16-17/>. [Fel ar 17.10.17].
- Canolfan Datblygiad Plant Prifysgol Harvard (2007). *A Science-Based Framework for Early Childhood Policy: Using Evidence to Improve Outcomes in Learning, Behavior, and Health for Vulnerable Children*. Ar gael yn: http://developingchild.harvard.edu/wp-content/uploads/2015/05/Policy_Framework.pdf. [Fel ar: 17.10.17].
- Canolfan Datblygiad Plant Prifysgol Harvard (2016). *From Best Practice to Breakthrough Impacts: A science-based approach to building a more promising future for young children and families*. National Scientific Council on the Developing Child. Ar gael yn: <https://developingchild.harvard.edu/resources/from-best-practices-to-breakthrough-impacts/>. [Fel ar: 10.10.17].
- Coch, D., Fischer KW. a Dawson, G. (2010). *Human Behavior, Learning and the Developing Brain: Typical Development*. Gwasg Guildford.
- Dallimore, D. (2016). *Informal Childcare and Childcare Choice in Wales: Traethawd hir PhD Polisi Cymdeithasol, Prifysgol Bangor, cyflwynwyd 2 Awst 2016*. Ar gael yn: <http://e.bangor.ac.uk/10257/1/Thesis%20DALLIMORE%200816.pdf>. [Fel ar: 10.10.17].
- Dallimore, D. a Graham, K., (2017). *Are we caring for our children?* Click on Wales, Y Sefydliad Materion Cymreig (IWA). Blog a gyhoeddwyd 25 Ebrill, 2017. Ar gael yn: <http://www.iwa.wales/click/2017/04/are-we-caring-for-our-children/>. [Fel ar: 17.10.17]
- Donaldson G (2015). *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf>. [Fel ar: 17.11.17]
- Eisenstadt, N., Ereky-Stevens, K., Soukakou, E., Sylva, E., Mathers, S. (2014). *Sound Foundations: A Review of the Research Evidence on Quality of Early Childhood Education and Care for Children under Three: Implications for Policy and Practice*. Ymddiriedolaeth Sutton. Ar gael yn: <https://www.suttontrust.com/research-paper/sound-foundations/>. [Fel ar: 6.10.2017].
- Comisiwn Ewropeidd (2011). *Early Childhood Education and Care: Providing all our children with the best start for the world of tomorrow*. Communication from the Commission. COM(2011) 66 terfynol. Ar gael yn: <http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/ALL/?uri=celex-52011DC0066>. [Fel ar: 17.10.2017].
- Ymddiriedolaeth y Teulu a Gofal Plant (2017). *Childcare Survey 2017*. Llundain: Ymddiriedolaeth y Teulu a Gofal Plant. Ar gael yn: <https://www.familyandchildcaretrust.org/childcare-survey-2017>.
- Felitti VJ, Anda RF, Nordenberg D, Williamson DF, Spitz AM, Edwards V, Koss MP, et al (1998). *The relationship of adult health status to childhood abuse and household dysfunction*. *American Journal of Preventive Medicine*: 14:245-258.
- Galindo-Rueda, F. and Vignoles, A. (2005), 'Class ridden or meritocratic? An economic analysis of recent changes in Britain', *Journal of Human Resources*.
- Goodman, A. a Gregg, P. (2010). *Poorer children's educational attainment: How important are attitudes and behaviour?* Sefydliad Joseph Rowntree, Efrog. Ar gael yn: <https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/poorer-children-education-full.pdf>. [Fel ar: 17.10.17]
- Graham, K. (2014). *Adolygiad annibynnol o gofrestru, rheoleiddio ac arolygu gofal plant ac addysg gynnar*. Ar gael yn: <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/early-years/independent-review-of-childcare-and-early-education-registration-regulation-and-inspection-executive-summary-and-recommendations/?lang=cy>. [Fel ar 17.10.17].
- Gregg, P., Propper, C. a Washbrook, E. (2008). *Understanding the relationship between parental income and multiple child outcomes: decomposition analysis*; Bradbury, B., M. Corak, J.
- Hinchliffe, S. (2017). *Examining the long-term impact of the gap in the early years: Wales report. Findings from the Millennium Cohort Study*. ScotCen: Social Research that works for society. Ymchwil a Gomisiynydd gan Achub y Plant, Hydref 2017.
- Huskinson, T., Hobden, S., Oliver, D., Keyes, J., Littlewood, M., Pye, J. Tipping, S., (2016). *Childcare and Early Years Survey of Parents in England, 2014 to 2015*. Senedd y DU: Yr Adran Addysg (DFE). Ar gael yn: <http://dera.ioe.ac.uk/25635/>. [Fel ar: 17.10.17].
- Kaya, Y., Bennett, J. a Moss, P. (2010). *Caring and learning together: a cross-national study on the integration of early childhood care and education within education*. Paris, UNESCO, 2010. Ar gael yn: <http://unesdoc.unesco.org/images/0018/001878/187818E.pdf>. [Fel ar: 17.10.17].

- Kiernan, KE a Mensah, FK (2011) 'Poverty, family resources and children's early educational attainment: the mediating role of parenting' *British Educational Research Journal*, cyfrol 37
- LGDU (2017). *Analysis of income deprivation and non-Flying Start areas*. Uned Ddata Llywodraeth Leol - Cymru, Comisiynwyd gan Achub y Plant Cymru, Tachwedd 201 - Gwybodaeth ar gael drwy gais.
- Lupien, S.J., McEwen, B.S., Gunnar, M.R., Heim, C. (2009). *Effects of stress throughout the lifespan on the brain, behaviour and cognition*. *Nat Rev Neurosci*. 2009 Mehefin; 10(6):434-45. doi: 10.1038/nrn2639. Epub 2009 Ebrill 29.
- Melhuish, E., Ereky-Stevens, K., Petrogiannis, K., Ariescu, A., Penderi, E., Rentzou, K., Tawell, A., Slot, P., Broekhuizen, M., Leseman, P. (2015). *A review of research on the effects of Early Childhood Education and Care (ECEC) upon child development*. Prosiect CARE; Curriculum Quality Analysis and Impact Review of European Early Childhood Education and Care (ECEC). Adroddiad Technegol. Comisiwn Ewropeaidd. Ar gael yn: http://ecec-care.org/fileadmin/careproject/Publications/reports/new_version_CARE_WP4_D4_1_Review_on_the_effects_of_ECEC.pdf. [Fel ar 17.10.17].
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015). *Ymchwiliad i Ganlyniadau Addysgol Plant o Gartrefi Incwm Isel*. Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar gael yn: <http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10112%20-%20report%20by%20the%20children,%20young%20people%20and%20education%20committee%20-%20inquiry%20into%20educational%20outcomes%20for%20children/cr-ld10112-w.pdf>. [Fel ar 17.10.17].
- Natcen (2017). *Childcare Use and Attitudes*. Comisiynwyd gan Achub y Plant. Ar gael yn: <http://natcen.ac.uk/our-research/research/child-care-use-and-attitudes/> [Fel ar 18.11.2017].
- National Research Council (US) and Institute of Medicine (US) Committee on Integrating the Science of Early Childhood Development (2000). *From Neurons to Neighborhoods: The Science of Early Childhood Development*. Golygyddion: Shonkoff, J.P. a Phillips, D.A; Washington (DC): National Academies Press (UDA).
- National Scientific Council (2014). "Excessive stress disrupts the development of brain architecture"; *Journal of Children's Services*, Cyfrol 9 Rhifyn: 2, tt.143-153, <https://doi.org/10.1108/JCS-01-2014-0006>.
- Naumann, I., McLean, C., Koslowski, A., Tisdall, K. a Lloyd, E. (2013). Naumann I, McLean C, Koslowski A, et al. (2013) *Early childhood education and care provision: international review of policy, delivery and funding*. Adroddiad terfynol. Llywodraeth yr Alban (yr Alban). Ar gael yn: <http://dera.ioe.ac.uk/17953/1/00416230.pdf>. [Fel ar: 17.10.17].
- Nelson, C. A., a Bloom, F. E. (1997). *Child development and neuroscience*. *Child Development*, 68(5), 970-987. Ar gael yn: <http://dx.doi.org/10.2307/1132045>. [Fel ar: 17.10.17]
- Nelson, C. A. (2000). *The Neurobiological Bases of Early Intervention*. Yn J. P. Shonkoff, ac S. J. Meisels (Golygyddion), *Handbook of Early Childhood Intervention* (Zail argraffiad, tt. 204-228). Caergrawnt, MA: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
- OECD (2006). *Starting Strong II: Early Childhood Education and Care*. Paris, OECD. Ar gael yn: <http://www.oecd.org/edu/school/starting-strongiiearlychildhoodeducationandcare.htm> [Fel ar 6.10.17].
- ONS (2015). *Participation rates in the UK - 2014 - 2*. Menywod, Llundain: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/compendium/participationratesintheuklabourmarket/2015-03-19/participationratesintheuk20142women> [Fel ar 6.10.17]
- ONS (2017). *H100 Regional Labour Market: Headline LFS Indicators for all regions*. Dyddiad rhyddhau: 15 Tachwedd, 2017. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/datasets/headlinelabourforcesurveyindicatorsforallregionshi00>. [Fel ar: 27.11.17].
- Paull, G. a Xu, X (2015). *Childcare Policy Options for Wales*. Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, Rhagfyr 2015. Ar gael yn: <http://ppiw.org.uk/files/2016/02/Childcare-Policy-Options-for-Wales.pdf>. [Fel ar 10.10.2017].
- Penn H., Barreau S., Butterworth L., Lloyd E., Moyles J., Potter S., Sayeed R. (2004). *What is the impact of out-of-home integrated care and education settings on children aged 0-6 and their parents?* Yn: Llyfrgell Tys-tiolaeth Ymchwil mewn Addysg. Llundain: Canolfan EPPI, Uned Ymchwil y Gwyddorau Cymdeithasol, Sefydliad Addysg. Ar gael yn: http://eppi.ioe.ac.uk/cms/Portals/0/PDF%20reviews%20and%20summaries/EY_rv1.pdf?ver=2006-03-02-124814-047. [Fel ar 06.10.17].
- Achub y Plant ar ran Ymgyrch 'Read On, Get on' (2015). Ready to read: Closing the gap in early language skills so that every child in Wales can read well. Ar gael yn: <https://www.savethechildren.org.uk/content/dam/global/reports/education-and-child-protection/ready-to-read-wales.pdf>
- Shonkoff J.P., Boyce W.T., McEwen B.S., (2009). *Neuroscience, molecular biology, and the childhood roots of health disparities: building a new framework for health promotion and disease prevention*. *JAMA: the Journal of the American Medical Association* 301(21): 2252-2259. doi: 10.1001/jama.2009.754.
- StatsCymru (2016). *Flying Start, Summary Statistics 2015-2016*. Cyhoeddiad Cyntaf, 13 Gorffennaf 2016. Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://dera.ioe.ac.uk/26877/1/160713-flying-start-summary-statistics-2015-16-en.pdf>.
- Sylva, K., Melhuish, E., Sammons, P., Siraj-Blatchford, I., a Taggart, B. (2004). The Effective Provision of Preschool Education (EPPE) Project: Findings from Preschool to the end of Key Stage 1. Llundain: AdAS. <https://www.education.gov.uk/publications/eOrderingDownload/SSU-FR-2004-01.pdf>
- Sylva, K, Melhusih, E, Sammons, P, Siraj-Blatchford, I, a Taggart, B (2008) 'Effective pre-school and primary education 3-11 project' *Report from the Primary Phase: Pre-school, School and Family Influences on Children's Development during Key Stage 2 (Age 7-11)*. DCSF Research Report.
- Szyf, M., (2009a). *Early life, the epigenome and human health*. *Acta paeiatrica* 98(7) 1082-1084.
- Szyf M (2009b). *The early life environment and the epigenome*. *Biochimica et biophysica acta* 1790(9): 878-885.
- Taggart, B., Sammons, P., Sylva, K., Melhuish, E., Siraj-Blatchford, Elliot, K., Walker-Hall, J. (2000). *The effective provision of pre-school education (EPPE) Project: Final Report: A longitudinal study funded by the DfES 1997-2003*. Sefydliad Addysg, Prifysgol Llundain, Yr Adran Addysg a Sgiliau/Cychwyn Cadarn. Ar gael yn: https://www.ucl.ac.uk/ioe/research/pdf/Ratios_in_Pre-School_Settings_DfEE.pdf. [Fel ar 17.10.17].
- Taylor, C., Rhys, M., Waldron, S., Davies, R., Power, S., Maynard, T., Moore, L., Blackaby, D., Plewis, I. (2015). *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Terfynol*. WISERD ar gyfer Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 14 Mai 2015. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150514-foundation-phase-final-cy.pdf>. [Fel ar: 17.10.2017]
- Vuri, D. (2016). *Do childcare policies increase maternal employment?* IZA World of Labor. Ar gael yn: <https://wol.iza.org/articles/do-childcare-policies-increase-maternal-employment/long>. [Fel ar 17.10.17].
- Waldfoegel, J a Washbrook, E (2011) Income-related gaps in school readiness in the US and UK in Smeeding T et al (Eds) *Persistence, Privilege, and Parenting: The Comparative Study of Intergenerational Mobility*. Efrog Newydd: Sefydliad Russell Sage
- Llywodraeth Cymru (2012). *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-16*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://gov.wales/topics/people-and-communities/tackling-poverty/taking-forward-tackling-poverty-action-plan/?lang=cy>
- Llywodraeth Cymru (2013a). *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/140710-building-a-brighter-future-progress-report-2013-2014-cy.pdf>. [Fel ar: 28.09.17].

Llywodraeth Cymru (2013b). *Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://gov.wales/topics/people-and-communities/tackling-poverty/taking-forward-tackling-poverty-action-plan/?lang=cy>. [Fel ar 17.10.17].

Llywodraeth Cymru (2015a). *Strategaeth Tlodi Plant ar gyfer Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/child-poverty/?lang=cy>

Llywodraeth Cymru (2015b). *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Adroddiad Cynnydd Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (2014-2015)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150812-building-a-brighter-future-progress-report-2014-15-w.pdf>. [Fel ar 17.10.17].

Llywodraeth Cymru (2016a). *Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb 2016-2020*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/161214-strategic-equality-plan-cy.pdf>. [Fel ar 24.11.17].

Llywodraeth Cymru (2016b). *Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed..* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://cssiw.org.uk/docs/cssiw/publications/160303reg-childcarecy.pdf>. [Fel ar 17.10.17].

Llywodraeth Cymru (2016c). *Gwerthusiad o'r Cynllun Peilot Hyblygwydd y Cyfnod Sylfaen*. Llywodraeth Cymru: Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth. Ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-foundation-phase-flexibility-pilot-scheme/?lang=cy>. [Fel ar 17.10.17]

Llywodraeth Cymru (2017a). *Datganiad Ysgrifenedig- Plant yn Gyntaf*. Ysgrifennydd y Cabinet dros Blant a Chymunedau, Carl Sargent AC. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/childrenfirs/?lang=cy> [Fel ar 17.11.2017].

Llywodraeth Cymru (2017b). *Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf> [Fel ar 18.10.2017]

Llywodraeth Cymru (2017c). *Capasiti Gofal Plant yng Nghymru: Mapio'r ddarpariaeth gofal plant yn erbyn y galw posibl amdano*. AGGC, Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru, WISERD. Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 65/2017. Dyddiad Cyhoeddi: 31/10/2017. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/caecd/research/2017/170928-childcare-offer-wales-cy.pdf>. [Fel ar: 17.11.2017]

Llywodraeth Cymru (2017d). *Gwerthusiad Cenedlaethol o Dechrau'n Deg: Canlyniadau Addysgol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/national-evaluation-flying-start/?lang=cy>. [Fel ar: 17.10.17].

Llywodraeth Cymru (2017e). *Proffil y Cyfnod Sylfaen: Diweddariad*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://gov.wales/topics/educationandskills/foundation-phase/foundation-phase-profile/?skip=1&lang=cy>. [Fel ar: 17.10.17].

Llywodraeth Cymru (2017f). *Y Cynnig Gofal Plant i Gymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/the-childcare-offer-for-wales/?skip=1&lang=cy>. [Fel ar 17.10.17]

Llywodraeth Cymru (2017g). *Ymchwil Ansoddol gyda Theuluoedd Dechrau'n Deg. Adroddiad cam 2*. Llywodraeth Cymru: Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/caecd/research/2017/170131-qualitative-research-flying-start-families-wave-2-cy.pdf>. [Fel ar: 17.10.17].

Llywodraeth Cymru (2017h) *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Llywodraeth Cymru: Is-adran y Gymraeg, Caerdydd. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/170711-welsh-language-strategy-cy.pdf>

Llywodraeth Cymru (2017i). Llywodraeth Cymru, **Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar**, Y Tîm Polisi Blynyddoedd Cynnar, Caerdydd. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/171215-childcare-play-early-years-workforce-plan-v2-cy.pdf>

DARNAU BACH. DARLUN MAWR



Achub y Plant
Save the Children